

Adroddiad ar Ymgynghori ac Ymgysylltu Ynghylch Llesiant 2021-22

Sir Gaerfyrddin

Adroddiad ar Weithgarwch ymgysylltu:

- Arolwg llesiant rhanbarthol: Canlyniadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin
- Grwpiau ffocws / gweithdai
- Ymgynghoriad ar yr Aseiad draff
- Adborth gan bartneriaid statudol

Cynnwys

Cynnwys	1
Cyflwyniad a'r Cyd-destun	4
Braslun o'r Ymagwedd a Dulliau Ymgynghori	4
Arolwg	4
Pecyn cymorth	5
Arolwg Llesiant Rhanbarthol: Canlyniadau Sir Gâr	6
Proffil demograffig yr ymatebwyr	6
Sir Gaerfyrddin Lewyrchus	8
Sir Gaerfyrddin Gydnerth	12
Sir Gaerfyrddin fwy Cyfartal	18
Sir Gaerfyrddin Iachach	25
Sir Gaerfyrddin o Gymunedau Cydlynus	34
Sir Gaerfyrddin o ddiwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	40
Sir Gaerfyrddin Ymatebol	46
Tystiolaeth ansoddol wedi'i choladu mewn digwyddiadau	53
Fforwm Strategol y Gymraeg	53
Grŵp Cyflawni Amgylchedd Iach	55
Rhanddeiliaid Cymunedol y Lluoedd Arfog	56
Grŵp Darparwyr Gwasanaethau'r Lluoedd Arfog	59
Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin	63
Fforwm Ieuenctid Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys	65
Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru, Rhwydwaith Iechyd Meddwl a Llesiant	66
Ysgol Gynradd Llanybydder	69
Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid – Ysgol Bro Dinefwr	71
Ysgol Gymraeg Brynsierfel	75
Ysgol Gynradd Llandeilo	76
Ysgol Gynradd Drefach	77
Ysgol Gynradd Llangynnwr	78
Ysgol Gynradd Pen Rhos	79
Asesiad o Lesiant Lleol Sir Gaerfyrddin	80
Pecyn Cymorth Digwyddiadau Ar-lein Rhanddeiliaid	80
Ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant Lleol drafft	88

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Asesiad Llesiant Drafft Sir Gaerfyrddin	89
Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar yr asesiad o lesiant lleol drafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin, sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	97
Sylwadau Cyffredinol	98
Sylwadau ar agweddau penodol o Ofynion Statudol yr Asesiad	98
Strwythur a Fformat	99
Ymgysylltiad	99
Cydbwysedd a Chynhwysedd	99
Ymagwedd Myfyriol a Beirniadol	100
Ansawdd y Dull Dadansoddol	100
Tueddiadau'r Dyfodol	101
Adborth o feysydd polisi eraill	101
Meysydd i'w datblygu	102
Adborth a chyngor gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	103

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lunio a chyhoeddi Asesiad o Lesiant. Bydd yr Asesiad yn gweithredu fel datganiad o lesiant i bob ardal sirol. Yn ogystal â phwysigrwydd adlewyrchu data meintiol (e.e. o'r Cyfrifiad a ffynonellau swyddogol eraill), mae'r canllawiau'n pwysleisio bod ymgysylltu â phobl yn hanfodol wrth wneud yr asesiad o lesiant mewn modd digonol.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y corff sylweddol o waith ymgysylltu a wnaethpwyd yn Sir Gaerfyrddin er mwyn helpu i ddeall beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl ac felly llywio'r gwaith o lunio Cynllun Llesiant i'r Sir.

Braslun o'r Ymagwedd a Dulliau Ymgynghori

Er budd cydweithredu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro wedi penderfynu cydweithio ar eu hasesiadau o lesiant. Mae'r ymagwedd ranbarthol, gyson hon hefyd yn cynorthwyo sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond y mae eu cylch gwaith yn ymestyn y tu hwnt i Sir Gaerfyrddin.

Dyma rannau allweddol yr ymagwedd ranbarthol:

- Arolwg wedi'i gyfeirio at breswylwyr
- Pecyn cymorth cytunedig ar gyfer gwneud gwaith ymgysylltu uniongyrchol trwy grwpiau ffocws rhithwir neu mewn lleoliadau llai ffurfiol ar draws y rhanbarth

Arolwg

Datblygwyd arolwg, a lluniwyd cyfres o gwestiynau o dan y 7 Nod Cenedlaethol, sef llewyrchus, cydnerth, cyfartal, iachach, cydlynus, diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu a Sir Gaerfyrddin ymatebol.

Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Pwyleg, Rwmaneg ac Arabeg. Roedd fersiwn Hawdd ei Darllen o'r arolwg hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Y dull a fabwysiadwyd yn Sir Gaerfyrddin oedd datblygu ymgyrch i dargedu ymatebwyr posibl yn y ffyrdd canlynol:

- Cynnal arolwg ar dudalen we ymgynghoriadau Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Hyrwyddo trwy holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'u gweithwyr cyflogedig

- Negeseuon Facebook a Twitter a datganiadau i'r wasg dwyieithog
- Sgyrsiau rhithwir gydag ysgolion cynradd lleol
- Sgyrsiau gyda phobl ifanc trwy'r Gwasanaethau Ieuencid a Fforwm Ieuencid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Ymgyrch bostio a chylchlythyr electronig at Fforwm Heneiddio'n Dda Sir Gâr (oddeutu 2100 o aelodau)
- Cydgysylltu â phartneriaethau fel Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin a Chynghorau Tref a Chymuned
- Oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith oherwydd pandemig COVID19, gwnaed gwaith hyrwyddo'r arolwg hwn gan fwyaf yn rhithwir. Derbyniodd holl glercod y Cynghorau Tref a Chymuned e-byst ynglŷn â'r ymgynghoriad a gofynnwyd hefyd i'r aelodau etholedig ei hyrwyddo o fewn eu cymunedau.

Ochr yn ochr â'r cyfathrebu ehangach, gwnaed ymdrechion penodol i gynnwys y lleisiau/rhwydweithiau canlynol nad ydynt yn cael eu clywed yn aml:

- Clymblaid Anabledd Sir Gaerfyrddin a grwpiau cynrychioliadol lleol
- Fforwm LHDTTC+ Sir Gaerfyrddin
- Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli
- Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin a gofalwyr ifanc
- Tenantiaid Awdurdod Lleol
- Sefydliadau gwasanaethau teulu a chanolfannau teulu
- Grwpiau cymorth i deuluoedd ifanc
- Grwpiau hamdden, adloniant a chwaraeon
- Partneriaethau natur a chadwraeth lleol
- Sefydliadau sy'n cynrychioli ardaloedd gwledig, trwy'r Grŵp Gweithredu Lleol
- Myfyrwyr trwy Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant
- Busnesau lleol
- Rhwydwaith o sefydliadau sydd wedi cael cyllid drwy ein Biwro Cymunedol

Ceir dadansoddiad helaeth o'r arolwg yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Pecyn cymorth

Paratowyd pecyn cymorth rhanbarthol, gan gynnwys cyflwyniad sirol a rhanbarthol, meysydd Llesiant allweddol i'r sir, cwestiynau allweddol, a ffurflen adborth i'w hanfon yn ôl i un man cyswllt yng Nghyngor Sir Gâr.

Defnyddiwyd y pecyn cymorth fel rhan o'r gweithgareddau cynnwys canlynol:

- Rhwydwaith Canolfannau Cymunedol CAVS (25.08.2021)
- Rhwydwaith Cynhyrchwyr Bwyd CAVS (25.08.2021)
- Fforwm Strategol y Gymraeg (20.09.2021)
- Grŵp Cyflawni Amgylchedd Iach (22.09.2021)
- Rhanddeiliaid y Lluoedd Arfog (22.09.2021)
- Defnyddwyr gwasanaeth y Lluoedd Arfog (29.09.2021)
- Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin (29.09.2021)
- Grŵp ffocws Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (28.09.2021)
- Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned (30.09.2021)
- Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddol CAVS (5.10.2021)
- Fforwm Ieuenctid Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys (5.10.2021)
- Rhwydwaith Gweithredu dros Iechyd Meddwl, Iechyd Meddwl a Llesiant Gorllewin Cymru (6.10.2021)
- Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid – Ysgol Bro Dinefwr (13.10.2021)
- Ysgolion cynradd



Yn sylfaen i'r gwaith ymgysylltu roedd ymgyrch helaeth yn y cyfryngau, gan gynnwys datganiadau i'r wasg, negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, ac ati.

Arolwg Llesiant Rhanbarthol: Canlyniadau Sir Gâr

Mae'r adran hon yn ystyried pob cwestiwn yn yr arolwg yn ei dro. Mae'r 'parthau' a ddefnyddiwyd yn yr arolwg wedi cael eu cadw at ddibenion yr adroddiad hwn.

Sonnir am farn gwahanol gategoriâu ymatebwyr, fel y gellir gwneud cymariaethau. Yr enw ar y broses hon yw dadgyfuno data arolwg: edrych ar dueddiadau yn ôl oedran, rhywedd a newidynnau demograffig eraill er mwyn cyfoethogi'r dadansoddiad. Felly, rhoddwyd pwys priodol i farn pawb yr ymgynghorwyd ag ef, ac yn benodol, rhoddwyd 'sylw dyledus' i ymatebion testun rhydd (llythrennol).

Proffil demograffig yr ymatebwyr



Cafwyd 1333 o ymatebion i'r arolwg llesiant rhanbarthol ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.



Ymatebodd **609 o breswylwyr Sir Gaerfyrddin** i'r arolwg llesiant rhanbarthol. Mae pumed yn byw ym mhob un o Ardal Gymunedol 2 (22%) ac Ardal Gymunedol 4 (23%). Mae 19% yn byw yn Ardal Gymunedol 1, ac mae llai o ymatebwyr yn byw yn Ardaloedd Cymunedol 3 (12%), 5 (12%) a 6 (11%).

Dwy o'r nodweddion demograffig pwysicaf o ran polisi cyhoeddus yw oedran a rhywedd. Mae'r dadansoddiad oedran yn dangos bod ymatebwyr yn dod o ddosbarthiad oedran hŷn: roedd dros hanner yr ymatebwyr o oedran gweithio: 67% rhwng 16 a 64 oed, ac roedd 32% o oedran pensiwn (65 a hŷn). O ran oedran, roedd y nifer fwyaf o ymatebion a gafwyd gan y garfan 55-64 oed (26%), wedyn 45-54 oed (20%) a 65-74 oed (19%). Yn olaf, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng benywod a gwrywod; benywod oedd 72% o'r ymatebwyr, a gwrywod oedd 27% (1% gwell ganddynt beidio â dweud).

Dangosir y canlyniadau o'r cwestiynau demograffig eraill yn y tabl isod.

Nodwedd Ddemograffig	% o'r cyfan
Rhywedd	
Gwryw	27%
Benyw	72%
GGBâD	1%
Grŵpiau Oedran	
<16	0%
16-24	1%
25-34	6%
35-44	13%
45-54	21%
55-64	26%
65-74	19%
75-84	8%
85+	4%
GGBâD	1%
16-64 oed	67%
65+ oed	21%
Trawsryweddol	
Oes	6%
GGBâD	1%


Nodwedd Ddemograffig	% o'r cyfan
Perthynas	
Sengl	16%
Priod	59%
Partneriaeth Sifil	3%
Wedi ysgaru/gwahanu	11%
Gweddwr	8%
GGBâD	4%
Cyfeiriadedd Rhywiol	
Heterorywiol	91%
LHD	3%
Arall	2%
GGBâD	4%
Ethnigrwydd	
Gwyn	97%
BME	1%
Arall	1%
GGBâD	1%
Gofalwyr	
Cyfrifoldebau gofalu	22%
GGBâD	2%

Nodwedd Ddemograffig	% o'r cyfan
Anabledd	
Anabl	25%
GGBâD	3%
Crefydd	
Oes	60%
GGBâD	3%
Incwm	
llai na £15k	17%
£15-£30,000	28%
£30-£45,000	17%
dros £45,000	25%
GGBâD	13%
Y Gymraeg	
Deall Cymraeg llafar	48%
Siarad Cymraeg	37%
Darllen Cymraeg	34%
Ysgrifennu Cymraeg	30%
Dim o'r rhain	42%
Iaith Gyntaf	
Cymraeg	22%
Saesneg	77%
Arall	1%

Sir Gaerfyrddin Lewyrchus

C18) Pa dri pheth ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf mewn cymuned lewyrchus?

Mae'r **tri** phrif opsiwn a ddewiswyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'u rhestru fel a ganlyn: Rhwydwaith trafndiaeth dda sy'n cyrraedd anghenion gwledig a threfol **50%**, Incwm cyson **47%** a Cyfleoedd Tai fforddiadwy **37%**.



Mae archwilio canlyniadau C18 yn ôl newidyn demograffig yn datgelu amrywiant ar sail ardal (ardal gymunedol).


Ardal Gymunedol 1		Ardal Gymunedol 2		Ardal Gymunedol 3	
Cyflog byw	26%	Gofal plant digonol a fforddiadwy	28%	Cyflog byw	16%
Economi gwyrddach	22%	Cyfleoedd tai fforddiadwy	26%	Cyflogaeth sefydlog	14%
Rhwydwaith trafndiaeth dda sy'n cyrraedd anghenion gwledig a threfol	21%	Mynediad at hyfforddiant ac addysg bellach	25%	Incwm cyson	13%
Ardal Gymunedol 4		Ardal Gymunedol 5		Ardal Gymunedol 6	
Cysylltedd Digidol	27%	Mynediad at hyfforddiant ac addysg bellach	16%	Mynediad at hyfforddiant ac addysg bellach	18%
Rhwydwaith trafndiaeth dda sy'n cyrraedd anghenion gwledig a threfol	26%	Incwm cyson	15%	Ystod o gyfleoedd cyflogaeth	13%
Gofal plant digonol a fforddiadwy	24%	Economi gwyrddach	12%	Economi gwyrddach	12%

Yn y sir, ar gyfer y rhai 16-64 oed, 'ystod o gyfleoedd cyflogaeth' a gafodd y sgôr uchaf (83%) tra bod y rhai 65+ oed yn meddwl ei bod yn fwy gwerthfawr cael 'rhwydwaith trafndiaeth dda sy'n cyrraedd anghenion gwledig a threfol' (43%). Fodd bynnag, nododd y benywod y byddent yn gwerthfawrogi 'gofal plant digonol a fforddiadwy' (83%) tra bod y gwrywod yn teimlo y byddai 'economi gwyrddach' (30%) o fwy o werth. Roedd ymatebwyr ar incwm uwch

o £45k+ yn gwerthfawrogi 'gofal plant digonol a fforddiadwy' (42%) tra bod y rhai ar incwm is o dan £15k yn gwerthfawrogi 'cyflog byw' (27%).

C19) Wrth edrych ymlaen, beth sy'n eich poeni fwyaf am lewyrch y sir?

Yr hyn a oedd yn poeni ymatebwyr fwyaf am lewyrch yn y sir oedd 'diffyg tai fforddiadwy' (57%) a ddilynwyd gan 'ddiffyg cyfleoedd swyddi addas' (52%) a 'diffyg trafndiaeth' (48%). Yr ymateb a sgoriodd leiaf oedd 'diffyg gofal plant digonol a fforddiadwy' (19%).




Roedd amrywiant yn yr ymatebion gan yr Ardaloedd Cymunedol ynghylch eu pryderon am lewyrchyn eu sir:

- Ardal Gymunedol 1 yn pryderu am 'ddiffyg gofal plant digonol a fforddiadwy' (24%)
- Ardal Gymunedol 2 'seilwaith digidol gwael' (27%)
- Ardal Gymunedol 3 'methiant i addasu a chymryd mantais o gyfleoedd economaidd newydd' (15%)
- Ardal Gymunedol 4 'colli talent i ardaloedd/siroedd eraill' (24%)
- Ardal Gymunedol 5 'twf gwan' (16%)
- Ardal Gymunedol 6 'methiant i addasu a chymryd mantais o gyfleoedd economaidd newydd' (15%)

Roedd ymatebwyr 16-64 oed yn poeni mwy am 'seilwaith digidol gwael' (72%) tra bod y rhai 65+ oed yn nodi mai 'diffyg trafndiaeth' oedd eu pryderon (37%). Fodd bynnag, nododd y benywod mai eu pryder mwyaf oedd 'gofal plant digonol a fforddiadwy' (80%) tra bod y gwrywod yn teimlo mai 'twf economaidd gwan' (31%) oedd y prif bryder iddynt. Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ hefyd mai 'seilwaith digidol gwael' oedd eu prif bryder (30%) tra bod y rhai ar incwm is o dan £15k yn poeni fwyaf am 'ddiffyg hyfforddiant a sgiliau sy'n gweddu anghenion yr economi/marchnad lafur lleol' (20%).

C20) Beth fydddech chi'n ystyried ei wneud i wella'ch amgylchiadau economaidd eich hun neu'ch cymuned?

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn y sefyllfa orau i 'gefnogi busnesau lleol' (78%) er mwyn gwella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned.




Roedd amrywiant yn yr ymatebion ar gyfer yr hyn y byddent yn ystyried ei wneud i wella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned o'r Ardaloedd Cymunedol.

- Ardal Gymunedol 1 yn rhoi % uwch o ymatebion ar gyfer 'gwella fy sgiliau sylfaenol' (22%)
- Ardal Gymunedol 2 'dechrau swydd newydd' (24%)
- Ardal Gymunedol 3 'creu swyddi a chyflogaeth i bobl leol' (16%)
- Ardal Gymunedol 4 'dechrau busnes newydd' (26%)
- Ardal Gymunedol 5 'ymgymryd â chymhwyster neu hyfforddiant' (15%) ac
- Ardal Gymunedol 6 hefyd yn nodi mai 'gwella fy sgiliau sylfaenol' (16%) oedd eu pryder mwyaf mewn perthynas â llewyrch.

Er mwyn gwella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned, dywedodd ymatebwyr 16-64 oed y byddent yn ystyried 'dechrau swydd newydd' (95%) tra byddai'r rhai 65+ oed yn ystyried 'cefnogi busnes lleol' (32%). Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o fenywod y byddent yn barod i 'ymgymryd â chymhwyster neu hyfforddiant' (77%) tra bod y gwrywod yn teimlo y gallent 'creu swyddi a chyflogaeth i bobl leol' (34%) i wella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned. Nododd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ mai 'dechrau swydd newydd' (34%) oedd y brif ystyriaeth iddynt tra bod y rhai ar incwm is o dan £15k yn ddigon diddorol yn nodi mai 'creu swyddi a chyflogaeth i bobl leol' (22%) oedd y ffordd i wella eu twf economaidd eu hunain a'u cymuned.

C21) Pa gefnogaeth fyddai angen bod ar waith i wneud y pethau hyn?


Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai angen cymorth arnynt fel 'help i fusnesau lleol presennol' (59%) er mwyn gwella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned.



Unwaith eto roedd amrywiant yn yr ymatebion o ran pa gefnogaeth fyddai ei hangen er mwyn cefnogi ymatebwyr i wella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned o'r Ardaloedd Cymunedol.

- Ardal Gymunedol 1 yn rhoi % uwch o ymatebion ar gyfer 'cyllid neu gymorth cyflogwr i ymgymryd â chymhwyster neu hyfforddiant ychwanegol' (25%)
- Ardal Gymunedol 2 'gwell llwybrau/cysylltiadau trafnidiaeth leol' (25%)
- Ardal Gymunedol 3 'mwy o greu swyddi a chyflogaeth i bobl leol' (15%)
- Ardal Gymunedol 4 'help i ddechrau busnes newydd' (24%)
- Ardal Gymunedol 5 'gofal plant digonol a fforddiadwy' (18%) ac
- Ardal Gymunedol 6 a ofynnodd hefyd am gymorth mewn 'rhaglenni i wella fy sgiliau sylfaenol' (15%) fel eu prif gefnogaeth ar gyfer gwella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain a'u cymuned.

Er mwyn gwella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned, dywedodd ymatebwyr 16-64 oed y byddent yn ystyried 'dechrau swydd newydd' (95%) tra byddai'r rhai 65+ oed yn ystyried 'cefnogi busnes lleol' (32%). Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o fenywod y byddent yn 'ymgymryd â chymhwyster neu hyfforddiant' (77%) tra bod y gwrywod yn teimlo y gallent 'creu swyddi a chyflogaeth i bobl leol' (34%) i wella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain neu eu cymuned. Nododd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ hefyd mai 'dechrau swydd newydd' (34%) oedd y brif ystyriaeth iddynt tra bod y rhai ar incwm is o dan £15k yn ddigon diddorol yn nodi mai 'creu swyddi a chyflogaeth i bobl leol' (22%) oedd y ffordd i wella eu hamgylchiadau economaidd eu hunain a'u cymuned.




Mae archwilio canlyniadau C23 yn ôl newidyn demograffig yn datgelu peth tebygrwydd mewn ymatebion ond mae amrywiant ar sail ardal (ardal gymunedol).

Ardal Gymunedol 1		Ardal Gymunedol 2		Ardal Gymunedol 3	
Cefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy	28%	Tirwedd a golygfeydd	27%	Tirwedd a golygfeydd	16%
Adnoddau dŵr glân cydnerth a bywyd gwyllt	23%	Cefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy	23%	Mynediad at fyd natur a manau gwyrdd	13%
Mynediad at fyd natur a manau gwyrdd	20%	Mynediad at fyd natur a manau gwyrdd	23%	Bywyd gwyllt	12%
Ardal Gymunedol 4		Ardal Gymunedol 5		Ardal Gymunedol 6	
Aer Glân	27%	Mynediad at fyd natur a manau gwyrdd	13%	Traethau	22%
Bywyd gwyllt	26%	Traethau	13%	Hamdden awyr agored hygrych	15%
Traethau	24%	Hamdden awyr agored hygrych	12%	Adnoddau dŵr glân cydnerth	11%

Yn Sir Gaerfyrddin, ‘traethau’ (77%) oedd â’r sgôr uchaf ar gyfer y rhai 16-64 oed tra bod ymatebwyr 65+ oed yn meddwl ei bod yn fwy gwerthfawr cael ‘adnoddau dŵr glân cydnerth’ (41%). Nododd ymatebwyr benywaidd hefyd y byddent yn gwerthfawrogi ‘traethau’ (81%) tra bod ymatebwyr gwrywaidd yn teimlo y byddai ‘tirwedd a golygfeydd’ (35%) o fwy o werth. Roedd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ yn gwerthfawrogi ‘hamdden awyr agored hygrych’ (30%) tra bod y rhai ar incwm is o lai na £15k yn gwerthfawrogi ‘bywyd gwyllt’ (22%). Roedd yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ofalwyr yn gwerthfawrogi ‘aer glân’ (27%) fwyaf am eu hamgylchedd lleol ac roedd y rhai a nododd fod ganddynt anabledd yn gwerthfawrogi ‘cefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy’ (31%). Roedd ‘aer glân’ ac ‘adnoddau dŵr’ yn cael eu gwerthfawrogi gan bob grŵp oedran.

C24) Wrth edrych ymlaen, beth sy'n eich poeni fwyaf am eich amgylchedd lleol?

Roedd trigolion Sir Gaerfyrddin yn pryderu'n bennaf am 'sbwriel/tipio anghyfreithlon' (76%) yn eu hamgylchedd lleol.




Fodd bynnag, yn yr Ardaloedd Cymunedol roedd amrywiaeth o'r ymatebion a dderbyniwyd.

- Ardal Gymunedol 1 yn pryderu am 'ddigwyddiadau tywydd eithafol' (25%)
- Ardal Gymunedol 2 'effaith llifogydd' (29%)
- Ardal Gymunedol 3 'sbwriel/tipio anghyfreithlon' (15%)
- Ardal Gymunedol 4 'ansawdd dŵr yn dirywio' (27%)
- Ardal Gymunedol 5 hefyd yn pryderu am 'ansawdd dŵr yn dirywio' (17%)
- Ardal Gymunedol 6 (20%) yn pryderu'n bennaf am 'erydiad arfordirol'.

Roedd ymatebwyr 16-64 oed yn poeni mwy am y 'gallu i addasu a bod yn gydnerth i newid yn yr hinsawdd' (74%) tra bod y rhai 65+ oed yn dweud eu bod yn poeni mwy am 'sut i leihau gwastraff a gwella ailgylchu' (36%). Roedd menywod hefyd yn pryderu am y 'gallu i addasu a bod yn gydnerth i newid yn yr hinsawdd' (74%) tra bod y rhywedd gwrywaidd yn pryderu'n bennaf am 'ansawdd aer yn dirywio' (32%). Prif bryder yr ymatebwyr a oedd â chyfrifoldebau gofalu oedd 'erydiad arfordirol' (25%) ac roedd y rhai ag anableddau yn poeni mwy am 'gyflenwadau dŵr annigonol/sychder' (30%). Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ mai 'ansawdd aer yn dirywio' oedd eu prif bryder (37%) tra bod y rhai ar incwm is o dan £15k yn poeni fwyaf am yr 'effaith ar fywyd gwyllt' (22%).

C25) Beth fydddech chi'n ystyried ei wneud i wella'ch amgylchedd lleol?

Byddai'r rhan fwyaf o drigolion Sir Gaerfyrddin yn ystyried 'ailgylchu mwy' (82%) i wella eu hamgylchedd lleol.



Roedd amrywiant yn yr Ardaloedd Cymunedol o ran yr hyn y byddent yn ystyried ei wneud i wella eu hamgylchedd lleol.


- Ardal Gymunedol 1 yn ystyried 'creu/helpu i gynnal man chwarae' (25%)
- Ardal Gymunedol 2 'tyfu eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun' (22%)
- Ardal Gymunedol 3 'helpu i reoli mannau gwyrdd lleol ar gyfer bywyd gwyllt yn gynaliadwy' (14%)
- Ardal Gymunedol 4 'defnyddio dŵr yn fwy effeithlon' (30%)
- Ardal Gymunedol 5 'cerdded mwy' (14%)
- Ardal Gymunedol 6 'beicio mwy' (15%).

Byddai ymatebwyr 16-64 oed yn ystyried 'beicio mwy' (86%) tra dywedodd y rhai 65+ oed y byddai'n well ganddynt ystyried 'defnyddio mwy o drafnidiaeth gyhoeddus' (42%). Byddai ymatebwyr benywaidd yn ystyried 'creu/helpu i gynnal man chwarae' (78%) tra byddai'r rhywedd gwrywaidd yn ystyried 'beicio mwy' (33%) i wella eu hamgylchedd lleol.

Byddai ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn ystyried 'creu/helpu i gynnal man chwarae' (27%) a byddai'r rhai ag anabledau yn ystyried 'defnyddio trafndiaeth gyhoeddus' (29%). Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ y byddent yn ystyried 'beicio mwy' (37%) i wella eu hamgylchedd lleol tra byddai'r rhai ar incwm is o dan £15k yn ystyried 'defnyddio trafndiaeth gyhoeddus' (23%).

C26) Pa gefnogaeth fyddai angen bod ar waith i wneud y pethau hyn?

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai angen cymorth 'ailgylchu'n haws' (73%) er mwyn helpu i'w cefnogi i wella eu hamgylchedd lleol.



Roedd amrywiant yn yr Ardaloedd Cymunedol o ran y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wella eu hamgylchedd lleol.

- [Ardal Gymunedol 1](#) angen cefnogaeth 'mwy o hysbysebu busnesau bwyd lleol' (22%)
- [Ardal Gymunedol 2](#) 'mwy o lwybrau ar gyfer cysylltu trefi/pentrefi' (23%)
- [Ardal Gymunedol 3](#) 'gwasanaethu beiciau â chymhorthdal' (15%)
- [Ardal Gymunedol 4](#) 'ailgylchu'n haws' (24%)
- [Ardal Gymunedol 5](#) 'cynlluniau casglu sbwriel yn y gymuned' (14%)
- [Ardal Gymunedol 6](#) 'gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli' (16%).

Byddai ymatebwyr 16-64 oed yn hoffi cael mwy o gefnogaeth ar 'wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli' (80%) tra bod y rhai 65+ oed yn dweud y byddent yn hoffi cael cymorth gyda 'trafnidiaeth gynaliadwy fforddiadwy' (36%) i wella eu hamgylchedd lleol. Hoffai ymatebwyr benywaidd gael cymorth ar 'wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli' (78%) i helpu i wella eu hamgylchedd lleol tra byddai'r rhywedd gwrywaidd yn hoffi cymorth ar 'mwy o ymwybyddiaeth o ynni adnewyddadwy yn yr ardal' (29%).

Byddai ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu yn hoffi cael cymorth gyda 'lleoedd i dyfu eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun' (26%) a byddai'r rhai ag anabledau yn hoffi cymorth ar gyfer 'trafnidiaeth gynaliadwy fforddiadwy' (31%). Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ (30%) a'r rhai ar incwm is o £15k neu lai (24%) y byddai cymorth ar gyfer 'gwasanaethu beiciau â chymhorthdal' yn eu helpu i wella eu hamgylchedd lleol.


Sir Gaerfyrddin fwy Cyfartal

C28) Pa dri pheth ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf am fyw mewn cymdeithas sy'n ymdrechu i fod yn gyfartal i bawb?

Mae'r **tri** phrif opsiwn a ddewiswyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'u rhestru fel a ganlyn: Byw mewn cymuned lle nad wyf yn teimlo'n anniogel **44%**, Cael fy nerbyn am bwy ydw i **43%** a Nid yw'r hyn yr wyf yn dewis ei wneud yn cael ei bennu gan fy oedran, rhyw, rhywedd, hil, cefndir, cred neu a ydw i'n anabl/dim yn anabl **41%**.

Ardal Gymunedol 1		Ardal Gymunedol 2		Ardal Gymunedol 3	
Nid yw'r hyn yr wyf yn dewis ei wneud yn cael ei bennu gan fy oedran, rhyw, rhywedd, hil, cefndir, cred neu a ydw i'n anabl/dim yn anabl.	23%	Gallu mynegi fy hun yn rhydd	27%	Gallu mynegi fy hun yn rhydd	15%
Cael fy nerbyn am bwy ydw i	22%	Cael mynediad cyfartal â phawb arall i wasanaethau cyhoeddus	24%	Gweithredir ar unrhyw bryderon sydd gennyf am driniaeth annheg	14%
Cael mynediad cyfartal â phawb arall i wasanaethau cyhoeddus	22%	Cael fy nerbyn am bwy ydw i	23%	Nid yw'r hyn yr wyf yn dewis ei wneud yn cael ei bennu gan fy oedran, rhyw, rhywedd, hil, cefndir, cred neu a ydw i'n anabl/dim yn anabl.	13%
Ardal Gymunedol 4		Ardal Gymunedol 5		Ardal Gymunedol 6	
Byw mewn cymuned lle nad wyf yn teimlo'n anniogel	28%	Nid yw'r hyn yr wyf yn dewis ei wneud yn cael ei bennu gan fy oedran, rhyw, rhywedd, hil, cefndir, cred neu a ydw i'n anabl/dim yn anabl	13%	Cael yr un hawliau ag eraill a allai fod o wahanol oeddrannau, rhyw, rhywedd, hil, cefndiroedd, credoau ac a allai fod yn anabl/ddim yn anabl	16%
Derbyn yr un tâl ag eraill sy'n gweithio mewn rôl gyfatebol â mi	25%	Cael yr un hawliau ag eraill a allai fod o wahanol oeddrannau, rhyw, rhywedd, hil, cefndiroedd, credoau ac a allai fod yn anabl/ddim yn anabl	13%	Gweithredir ar unrhyw bryderon sydd gennyf am driniaeth annheg	15%
Cael mynediad cyfartal â phawb arall i wasanaethau cyhoeddus	24%	Cael fy nerbyn am bwy ydw i	13%	Nid yw'r hyn yr wyf yn dewis ei wneud yn cael ei bennu gan fy oedran, rhyw, rhywedd, hil, cefndir, cred neu a ydw i'n anabl/dim yn anabl	12%

Mae archwilio canlyniadau C28 fesul Ardaloedd Cymunedol a demograffeg yn datgelu peth tebygrwydd yn ogystal ag amrywiant mewn ymatebion.




Yn Sir Gaerfyrddin, ‘derbyn yr un tâl ag eraill sy’n gweithio mewn rôl gyfatebol â mi’ (44%) oedd y sgôr uchaf ar gyfer y rhai 16-64 oed tra bod ymatebwyr 65+ oed yn rhoi mwy o werth ar ‘fyw mewn cymuned lle nad wyf yn teimlo'n anniogel oherwydd fy oedran, rhyw, hil, cefndir, cred neu anabledd/dim anabledd’ (40%).

Nododd ymatebwyr benywaidd hefyd mai’r hyn y byddent yn ei werthfawrogi fwyaf am fyw mewn cymdeithas sy’n ymdrechu i fod yn gyfartal i bawb fyddai ‘derbyn yr un tâl ag eraill sy’n gweithio mewn rôl gyfatebol â mi’ (83%) tra bod ymatebwyr gwrywaidd yn teimlo bod byddai ‘gallu mynegi fy hun yn rhydd’ (41%) o fwy o werth.

Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ hefyd mai’r hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am fyw mewn cymdeithas sy’n ymdrechu i fod yn gyfartal i bawb oedd ‘derbyn yr un tâl ag eraill sy’n gweithio mewn rôl gyfatebol â mi’ (32%) tra oedd y rheini ar yr incwm is o dan £15k yn gwerthfawrogi 'cael fy nerbyn am bwy ydw i' (22%). Roedd ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ofalwyr yn gwerthfawrogi ‘byw mewn cymuned lle nad wyf yn teimlo'n anniogel oherwydd fy oedran, rhyw, hil, cefndir, cred neu anabledd/dim anabledd’ (25%) ac roedd y rhai a nododd fod ganddynt anabledd yn gwerthfawrogi 'cael fy nerbyn am bwy ydw i' (30%). Dywedodd yr holl ymatebwyr â sgiliau Cymraeg eu bod yn gwerthfawrogi ‘derbyn yr un tâl ag eraill sy’n gweithio mewn rôl gyfatebol â mi’ fel y gwnaeth yr holl ymatebwyr 54 oed ac iau.

C29) Wrth edrych ymlaen, beth sy'n eich poeni fwyaf am i'ch cymuned ddod yn decach i bawb?

Roedd trigolion Sir Gaerfyrddin yn pryderu'n bennaf am 'Doriadau parhaus i wasanaethau cyhoeddus (78%).



Fodd bynnag, yn yr Ardaloedd Cymunedol roedd amrywiant o'r ymatebion a dderbyniwyd o ran pa bryderon oedd gan drigolion ynghylch bod eu cymuned yn dod yn decach i bawb.

- Ardal Gymunedol 1 yn pryderu'n bennaf am 'Nid yw cyflogwyr / darparwyr addysg yn barod i wneud addasiadau rhesymol i weithwyr o wahanol oedrannau, rhywiau, rhywedd, hiliau, cefndiroedd, credoau a/neu ag anableddau' (22%)
- Ardal Gymunedol 2 'Dim digon o dai i ddiwallu gwahanol anghenion' (25%)
- Ardal Gymunedol 3 'Diffyg trafndiaeth gyhoeddus fforddiadwy lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel i deithio' (15%)
- Ardal Gymunedol 4 'Pobl sy'n meddwl fod anabledd yn broblem feddygol' (29%) ac
- Ardal Gymunedol 5 (15%) ac Ardal Gymunedol 6 (14%), y ddwy ardal yn bryderus ynghylch 'Pobl yn methu â byw mewn cymuned lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel'.


Roedd ymatebwyr 16-64 oed yn poeni mwy am y 'Pobl yn teimlo dan fygythiad gan y rhai a allai fod yn wahanol iddynt' (75%) tra dywedodd y rhai 65+ eu bod yn poeni mwy am 'Diffyg trafndiaeth gyhoeddus fforddiadwy lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel i deithio' (35%). Roedd merched yn pryderu am 'pobl sy'n meddwl fod anabledd yn broblem feddygol' (79%) tra bod y rhywedd gwrywaidd yn pryderu'n bennaf am 'doriadau parhaus i wasanaethau cyhoeddus' (28%). Roedd gan ymatebwyr a ddisgrifiodd eu hunain fel LHD bryderon ynghylch 'Nid yw cyflogwyr / darparwyr addysg yn barod i wneud addasiadau rhesymol i weithwyr o wahanol oedrannau, rhywiau, hiliau, cefndiroedd, credoau a/neu ag anableddau' (6%) tra'r oedd gan y rhai sy'n disgrifiodd eu hunain fel pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

bryderon ynghylch 'pobl sy'n meddwl fod anabledd yn broblem feddygol' a 'gofidiau am anghydraddoldeb yn cael eu hanwybyddu' (2%) ar gyfer y ddau ymateb.

Prif bryder yr ymatebwyr a oedd â chyfrifoldebau gofalu oedd 'Nid yw cyflogwyr / darparwyr addysg yn barod i wneud addasiadau rhesymol i weithwyr o wahanol oeddrannau, rhywiau, rhywedd, hiliau, cefndiroedd, credoau a/neu ag anableddau' (28%) ac roedd y rhai ag anableddau yn poeni mwy am 'pobl sy'n meddwl bod anabledd yn broblem feddygol' (38%). Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ mai 'pobl yn teimlo dan fygythiad gan y rhai a allai fod yn wahanol iddynt' (27%) oedd eu prif bryder tra bod y rhai ar incwm is o dan £15k yn fwy pryderus ynghylch 'pobl sy'n meddwl bod anabledd yn broblem feddygol' (25%).

C30) Beth fydddech chi'n ystyried ei wneud i helpu i wneud pethau'n decach i bawb yn eich cymuned?

Er mwyn gwneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned byddai'r rhan fwyaf o drigolion Sir Gaerfyrddin yn ystyried 'codi pryder am driniaeth annheg' ac 'adrodd trosedd casineb' (64%).



Roedd peth tebygrwydd mewn ymatebion a rhywfaint o amrywiant yn yr Ardaloedd Cymunedol o ran yr hyn y byddent yn ystyried ei wneud i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned.

- Ardal Cymunedol 1 'Helpu sefydliad sy'n cefnogi pobl o wahanol gefndiroedd, credoau neu anableddau' (24%)
- Ardal Gymunedol 2 'Helpu sefydliad sy'n cefnogi pobl o wahanol gefndiroedd, credoau neu anableddau' a 'siarad â rhywun o gefndir a/neu gred gwahanol neu sy'n berson anabl' (20%)
- Ardal Gymunedol 3 'siarad â rhywun o gefndir a/neu gred gwahanol neu sy'n berson anabl' (13%)
- Ardal Gymunedol 4 'siarad â rhywun o gefndir a/neu gred gwahanol neu sy'n berson anabl' (26%)
- Ardal Gymunedol 5 'dysgu mwy am pobl o wahanol gefndiroedd, credoau neu anableddau' (14%)

- Ardal Gymunedol 6 'siarad â rhywun o gefndir a/neu gred gwahanol neu sy'n berson anabl' (12%)

Er mwyn gwneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned byddai ymatebwyr 16-64 oed yn ystyried 'Dysgu mwy am bobl o wahanol gefndiroedd, credoau a/neu anabledau' a 'Helpu sefydliad sy'n cefnogi pobl o wahanol gefndiroedd, credoau a/neu anabledau' (78%) yn gyfartal tra bod y rhai 65+ oed yn nodi y byddent yn ystyried 'Siarad â rhywun o gefndir a/neu gred gwahanol a/neu sy'n berson anabl' (30%). Byddai'r rhan fwyaf o ymatebwyr benywaidd yn ystyried 'Dysgu mwy am bobl o wahanol gefndiroedd, credoau a/neu anabledau' (81%) tra byddai'r rhywedd gwrywaidd yn ystyried 'codi pryder ynghylch triniaeth annheg' (26%) i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned.


Dywedodd ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu y byddent hefyd yn ystyried 'Siarad â rhywun o gefndir a/neu gred gwahanol a/neu sy'n berson anabl' a 'chodi pryder ynghylch triniaeth annheg' (24%) tra byddai ymatebwyr ag anabledau yn ystyried 'ymgyrchu ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant' (32%).

Dywedodd ymatebwyr LHD y byddent yn ystyried 'Helpu sefydliad sy'n cefnogi pobl o wahanol gefndiroedd, credoau a/neu anabledau' (6%) fel y gwnaeth preswylwyr a nododd eu bod yn BME (2%).

Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ y byddent yn ystyried 'Helpu sefydliad sy'n cefnogi pobl o wahanol gefndiroedd, credoau a/neu anabledau' (28%) i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned a byddai'r rhai ar incwm is o dan £15k yn ystyried 'Dysgu mwy am bobl o wahanol gefndiroedd, credoau a/neu anabledau' (19%).

C31) Pa gefnogaeth fyddai ei hangen arnoch i wneud pethau'n decach i bawb yn eich cymuned?

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, er mwyn helpu i'w cefnogi i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned, y byddai angen cymorth arnynt o ran 'Bod yn hyderus na fyddai codi pryderon am driniaeth annheg / adrodd trosedd casineb yn arwain at ganlyniadau negyddol i mi na fy nheulu' (56%).



Unwaith eto roedd tebygrwydd yn ogystal ag amrywiant yn yr Ardaloedd Cymunedol o ran y gefnogaeth y byddai ei hangen arnynt i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned leol.

- Ardal Gymunedol 1 angen cefnogaeth ar 'Gwybodaeth am y sefydliadau sy'n bodoli eisoes a sut i gymryd rhan' (22%)
- Ardal Gymunedol 2 'Cyfleoedd i gwrdd ag ystod ehangach o bobl yn eich cymuned' (21%) • Ardal Gymunedol 3 (15%) 'Cyfleoedd i gwrdd ag ystod ehangach o bobl yn eich cymuned' (22%)
- Ardal Gymunedol 3 'Cyfleoedd i gwrdd ag ystod ehangach o bobl yn eich cymuned' (22%)
- Ardal Gymunedol 4 'Gwybodaeth am y sefydliadau sy'n bodoli eisoes a sut i gymryd rhan' (27%)
- Ardal Gymunedol 5 'Gwybodaeth am sefydlu neu gefnogi ymgyrch' (19%)
- Ardal Gymunedol 6 'Bod yn hyderus na fyddai codi pryderon am driniaeth annheg / adrodd trosedd casineb yn arwain at ganlyniadau negyddol i mi na fy nheulu' (13%).

Hoffai ymatebwyr 16-64 oed gael mwy o gefnogaeth ar 'Gwybodaeth am sefydlu neu gefnogi ymgyrch' (84%) tra dywedodd y rhai 65+ oed y byddent yn hoffi'r cymorth gyda 'Gallu dweud pryd mae gwybodaeth yn gywir a phryd nad yw' (33%) i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned leol. Hoffai ymatebwyr benywaidd gael cymorth ar 'Cyfleoedd i gwrdd ag ystod ehangach o bobl yn eich cymuned' (79%) i wneud pethau'n decach i bawb yn eu cymuned tra hoffai'r rhywedd gwrywaidd gael cymorth ar 'Gallu dweud pryd mae gwybodaeth yn gywir a phryd nad yw' (32%).

Dywedodd ymatebwyr a oedd yn LHD (7%) ac yn drawsryweddol (13%) y byddai angen 'Help a chefnogaeth i sefydlu sefydliad newydd' arnynt fel y gwnaeth preswylwyr a nododd eu bod yn BME (4%).

Hoffai ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu gael cymorth gyda 'Help a chefnogaeth i sefydlu sefydliad newydd' (29%) a byddai'r rhai ag anabledau yn hoffi cael cymorth ar 'Gallu dweud pryd mae gwybodaeth yn gywir a phryd nad yw' a 'Help a chefnogaeth i sefydlu sefydliad newydd' (27%). Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ y byddent yn gwerthfawrogi cefnogaeth ar 'wybodaeth am sefydlu neu gefnogi ymgyrch' a dywedodd y rhai ar incwm is o £15k neu lai y byddai cefnogaeth ar gyfer 'cyfleoedd i gwrdd ag ystod ehangach o bobl o fewn eu cymuned' (20%) yn eu helpu i wneud pethau'n decach i'w cymuned leol.

C32) Unrhyw sylwadau eraill ynghylch 'Sir Gaerfyrddin fwy Cyfartal'?

Derbyniwyd cyfanswm o **34 o sylwadau**, dyma rai sylwadau sy'n codi dro ar ôl tro neu o bosibl yn ddefnyddiol


- Sefydliadau statudol gan gynnwys yr heddlu a'r farnwriaeth i weithredu'n deg, yn agored a heb unrhyw wahaniaethu
- Cydnabod bod casineb at fenywod yn drosedd casineb
- Gwell seilwaith adrodd a chefnogaeth ar gyfer troseddau casineb
- Mae'r heddlu yn llawer rhy oddefgar ac mae diffyg staff ac adnoddau ofnadwy
- Cydnabod Rhyw yn hytrach na Rhywedd
- Gwell mynediad at wasanaethau'r GIG
- Cefnogaeth ychwanegol i'r gymuned Fyddar
- Gwell cefnogaeth a chyfleoedd gweithio i rieni sengl
- Offer chwarae cyfeillgar i'r anabl mewn parciau
- Credoau crefyddol/ffydd yn cael eu diystyru a'u gwthio o'r neilltu
- Dylid trin pawb gyda pharch - oedran, lliw, hil, hoyw, lesbiaidd, trawsrywiol ayb rydym yn cael ein geni'n gyfartal.



Sir Gaerfyrddin Iachach

C33) Pa dri pheth ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf mewn perthynas â'ch iechyd corfforol a/neu eich lles meddyliol?

Mae'r **tri** phrif opsiwn a ddewiswyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi'u rhestru fel a ganlyn: *Teimlo'n hapus ac yn iach 44%, Cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal pan fydd eu hangen arnaf mor agos â phosibl i'r cartref, neu drwy dechnoleg 30% a Gallu gwneud y pethau rydw i eisiau eu gwneud i'm cadw'n egniol ac yn hapus 26%.*



Mae archwilio canlyniadau C33 fesul Ardaloedd Cymunedol a demograffeg yn datgelu amrywiant mewn ymatebion.

Ardal Gymunedol 1		Ardal Gymunedol 2		Ardal Gymunedol 3	
Teimlo'n rhan o fy nghymuned	31%	Gallu gwneud y newidiadau yr wyf eisiau yn fy mywyd	43%	Cael y gefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf, pan nad wyf yn teimlo'n dda	19%
Gallu helpu eraill o'm cwmpas	30%	Mynediad at gyfleoedd ymarfer corff	37%	Cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal pan fydd eu hangen arnaf mor agos â phosibl i'r cartref, neu drwy dechnoleg	17%
Cael y gefnogaeth briodol, pan fydd ei angen arnaf, i'm helpu pan na allaf edrych ar ôl fy hun	30%	Cael lle braf i fyw	30%	Cyfleoedd i fynychu addysg a hyfforddiant	17%
Ardal Gymunedol 4		Ardal Gymunedol 5		Ardal Gymunedol 6	
Cyfleoedd i fynychu addysg a hyfforddiant	42%	Cael swydd ac incwm cyson	13%	Gallu helpu eraill o'm cwmpas	18%
Cael cefnogaeth i allu byw fy mywyd gyda chyflwr iechyd tymor hir	36%	Cael digon o arian i brynu yr hyn sydd ei angen arnaf	15%	Cael mynediad at gludiant sy'n fforddiadwy a dibynadwy	16%
Cael y gefnogaeth pan fydd ei hangen arnaf, pan nad wyf yn teimlo'n dda	31%	Gallu cymdeithasu gyda fy nheulu a'm ffrindiau	14%	Gallu helpu fy hun	15%

Yn Sir Gaerfyrddin, 'Cael swydd ac incwm cyson' (99%) oedd â'r sgôr uchaf ar gyfer y rhai 16-64 oed tra bod ymatebwyr 65+ oed yn rhoi mwy o werth ar 'Cael y gefnogaeth briodol, pan fydd ei hangen arnaf, i'm helpu pan na allaf edrych ar ôl fy hun' (66%).


Nododd ymatebwyr benywaidd hefyd mai'r hyn y byddent yn ei werthfawrogi fwyaf mewn perthynas â'u llesiant corfforol a/neu feddyliol fyddai 'Gallu mwynhau natur a chael mynediad i fannau awyr agored a gwyrdd' (82%) tra bod ymatebwyr gwrywaidd yn teimlo y byddai 'Cael lle braf i fyw' (42%) o fwy o werth iddynt.

Dyweddodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ mai'r hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a/neu les meddyliol oedd 'gallu gwneud y newidiadau yr wyf eu heisiau yn fy mywyd' (43%) tra bod y rhai ar incwm is o lai na £15k yn gwerthfawrogi 'cael cefnogaeth i allu byw fy mywyd gyda chyflwr iechyd tymor hir' (35%). Roedd ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ofalwyr hefyd yn gwerthfawrogi 'cael cefnogaeth i allu byw fy mywyd gyda chyflwr iechyd tymor hir' (33%) yn ogystal â'r rhai a nododd fod ganddynt anabledd (85%).

Roedd ymatebwyr a oedd yn disgwyl babi neu wedi cael babi yn y 6 mis diwethaf yn gwerthfawrogi 'Teimlo'n rhan o fy nghymuned' (2%) tra bod y rhai ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth yn gwerthfawrogi 'Cael lle braf i fyw' (2%).

C34) Wrth feddwl ymlaen dros y deng mlynedd nesaf, beth sy'n eich poeni fwyaf am allu aros yn iach yn gorfforol neu'n feddyliol?

O ran meddwl ymlaen dros y blynyddoedd nesaf am eu llesiant corfforol a/neu feddyliol, roedd preswylwyr Sir Gaerfyrddin yn pryderu'n bennaf am 'Peidio â chael mynediad at wasanaethau gofal iechyd pan fydd eu hangen, sydd mor agos â phosibl i'r cartref neu ar gael trwy dechnoleg' (57%).



Fodd bynnag, yn yr Ardaloedd Cymunedol roedd amrywiant o'r ymatebion a dderbyniwyd o'r pryderon oedd gan drigolion ynghylch eu lles corfforol a/neu feddyliol dros y deng mlynedd nesaf.

- Ardal Gymunedol 1 yn poeni mwy am 'Methu â chyrchu grwpiau neu glybiau i barhau â fy hobiau a diddordebau' (23%)
- Ardal Gymunedol 2 'Dim cartref neu lle diogel i fyw' (24%)
- Ardal Gymunedol 3 'Peidio â chael mynediad at wasanaethau gofal iechyd pan fydd eu hangen, sydd mor agos â phosibl i'r cartref neu ar gael trwy dechnoleg' (15%)
- Ardal Gymunedol 4 'Gorfod mynd i lefydd gwahanol a/neu siarad â gwahanol bobl i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnaf' (31%)

- Ardal Gymunedol 5 'Peidio â chael cefnogaeth i'm helpu i ddal i ofalu am aelod o'r teulu fel Gofalwr di-dâl' (19%)
- Ardal Gymunedol 6 'Byw mewn ardal leol nad yw'n teimlo'n ddiogel neu'n groesawgar' (16%).

Roedd ymatebwyr 16-64 oed yn poeni mwy am 'Dim cartref neu lle diogel i fyw' (73%) tra bod y rhai 65+ oed yn dweud eu bod yn poeni mwy am 'methu aros yn fy nghartref fy hun' (50%). Roedd merched yn pryderu am 'Ddim yn adnabod pobl yn fy nghymuned ac yn teimlo'n unig e.e. teulu'n byw ymhell' (77%) tra bod y rhywedd gwrywaidd yn ymwneud yn bennaf â 'Methu â gwneud ymarfer corff yn rheolaidd' (31%). Roedd gan ymatebwyr a ddisgrifiodd eu hunain fel LHD bryderon hefyd ynghylch 'Ddim yn adnabod pobl yn fy nghymuned ac yn teimlo'n unig e.e. teulu'n byw ymhell' (7%) tra bod gan y rhai a ddisgrifiodd eu hunain fel pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig bryderon ynghylch 'Dim cartref neu lle diogel i fyw' (2%).

Y prif bryder gan ymatebwyr oedd â chyfrifoldebau gofalu oedd 'Peidio â chael cefnogaeth i'm helpu i ddal i ofalu am aelod o'r teulu fel Gofalwr di-dâl' (59%) ac roedd y rhai ag anableddau yn poeni mwy am 'Gorfod mynd i lefydd gwahanol a/neu siarad â gwahanol bobl i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnaf' (44%). Dywedodd ymatebwyr ar incwm uwch o £45k+ mai 'Byw mewn ardal leol nad yw'n teimlo'n ddiogel neu'n groesawgar' (26%) oedd eu prif bryder tra bod y rhai ar incwm is o dan £15k yn fwy pryderus am 'Gorfod mynd i lefydd gwahanol a/neu siarad â gwahanol bobl i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnaf' (32%).

C35) Wrth edrych ymlaen, beth allech chi ei wneud i wella eich lles corfforol a meddyliol eich hun?

Dadansoddwyd yr adran hon gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Adroddiad Asesiad Llesiant Tachwedd 2021:

Dadansoddiad ansoddol o gwestiynau iechyd a lles yn arolygon llesiant rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Awduron yr Adroddiad: Charlotte Peat; Anna Bird; Dr Joanne McCarty)

Cefndir

Mae cyhoeddi Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cynnwys pobl a chymunedau yn effeithiol wrth wraidd gwella llesiant, felly, mae ymgysylltu ac ymgynghori wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i bartneriaid BGC.

Bu'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithio gan ddatblygu Fframwaith Ymgysylltu ac Ymgynghori Rhanbarthol. Darparodd hyn ddull safonol o gynnal y gweithgaredd ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer yr Asesiad Lles Lleol ar draws y tair ardal BGC yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro, ac mae'n cyd-fynd â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i adnewyddu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Mabwysiadwyd dull 'a arweinir gan ymgysylltu' i sicrhau bod barn ein dinasyddion wrth galon y set nesaf o Gynlluniau Llesiant BGC. Mae Ymgysylltu ac Ymgynghori yn ffynonellau gwybodaeth hollbwysig – maen nhw'n darparu data ansoddol a fydd yn ein helpu i ddeall profiadau bywyd, agweddau, a straeon pobl. At hynny, bydd y broses hon yn helpu i nodi bylchau yn y data ac yn cyfeirio at y grwpiau hynny a allai fod yn 'gudd' o ran niferoedd (er enghraifft, y gymuned ddigartref). Bydd hefyd yn ategu'r data meintiol a gasglwyd o'r Arolwg Llesiant, gan arwain at fewnwelediadau dyfnach a mwy 'craff'.

Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion yn ystod Awst-Hydref 2021 ac i ddechrau canolbwyntiodd ar annog cwblhau Arolwg Llesiant a thrafodaethau Grŵp Ffocws wedi'u targedu. Roedd gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei arolwg ei hun, a oedd ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Pwyleg, Arabeg a Rwmaneg i adlewyrchu'r ieithoedd cymunedol mwyaf cyffredin. Datblygwyd fersiwn Hawdd ei Darllen hefyd, ac roedd dinasyddion yn gallu cwblhau'r arolwg ar-lein neu fel copi papur.

Darparodd y Bwrdd Iechyd, fel partner statudol allweddol y BGC, gefnogaeth benodol ar gyfer dadansoddi cwestiynau'r Arolwg Llesiant sy'n gysylltiedig â "Cymru Iachach" a fydd yn cyfrannu at Asesiadau Llesiant y BGC, yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr i gefnogi gwaith craidd y Bwrdd Iechyd.

Dulliau

Cynhaliwyd arolwg llesiant 'dweud eich dweud' y BGC dros 13 wythnos ac roedd yn cynnwys arolwg ar-lein ac ymatebion post a gafodd eu mewnbynnu wedyn i'r gronfa ddata ar-lein. Roedd yr arolwg yn cynnwys tri blwch ateb testun rhydd yn adran iechyd a lles yr arolwg. Dyma gwestiynau 35 i 37 a chafodd y rhain eu cynnwys yn y dadansoddiad ansoddol hwn. Ni chafodd yr ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg ond na wnaethant fewnbynnu unrhyw destun rhydd ar gyfer unrhyw un o'r tri chwestiwn hyn eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Defnyddiwyd dadansoddiad thematig a chodio anwythol gyda phroses iteraidd o greu themâu. Aseswyd yr ymatebion a'u grwpio yn themâu cychwynnol. Unwaith yr oedd dau unigolyn wedi edrych ar dros hanner yr ymatebion, daeth y themâu cyffredin yn gliriach. Defnyddiwyd y rhain fel y prif themâu yn y dadansoddiad a rhoddwyd 'cod' neu 'allweddair' i bob thema. Ailymwelwyd â'r themâu hyn dros weddill yr ymatebion a'u llywio gan unrhyw batrymau newydd a oedd yn dod i'r amlwg yn y set ddata. Yna roedd unrhyw newid yn cael ei ail-gymhwyso i'r holl ymatebion.

Ni nodwyd mwy na phedair thema mewn unrhyw ateb penodol ar gyfer cwestiwn 35, ac ni nodwyd mwy na thair thema mewn unrhyw ateb penodol ar gyfer cwestiwn 36. Felly, gellid rhoi hyd at bedwar 'cod' gwahanol i bob ateb ar gyfer cwestiwn 35 yn ymwneud â phedair thema wahanol a gellid rhoi hyd at dri 'chod' gwahanol i bob ateb ar gyfer cwestiwn 36.


Gan ddefnyddio Microsoft Excel™, gellid cyfrif y nifer o weithiau yr oedd pob cod wedi'i neilltuo i'r ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Yna estynnwyd hyn i gyfrif y nifer o weithiau roedd pob cod, ac felly thema, wedi digwydd mewn is-grwpiau o ymatebwyr – gan gynnwys y rhai a atebodd 'ydw' i fod ag anabledd, y rhai 65 oed a hŷn, a'i rannu'n dair sir (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro). Mynegwyd y cyfrif hwn wedyn fel canran o gyfanswm nifer yr ymatebwyr a oedd wedi nodi unrhyw destun rhydd ar gyfer y cwestiwn penodol hwnnw ac a oedd ym mhob un o'r is-grwpiau hyn.

Fel mesur rheoli ansawdd, cafodd 10% o'r ymatebion ar hap eu codio'n annibynnol gan ddefnyddio'r un set o themâu a chodau/geiriau allweddol cyfatebol gan ail berson. Arweiniodd hyn at lefel uchel iawn o gytundeb yn y codio.

Canfyddiadau

Cwblhawyd cyfanswm o 1333 o arolygon yn rhanbarthol. Nid oedd 573 o arolygon yn cynnwys unrhyw ymateb testun i bob un o gwestiynau 35, 36 a 37. Rhoddodd 716, 618 a 199 ymateb testun i gwestiynau 35, 36 a 37 yn y drefn honno. Byddai atebion a ddarparwyd gan ymatebwyr yn aml yn cynnwys themâu lluosog neu bwyntiau gwahanol. Mae pob canran a roddir yn y canfyddiadau isod yn cyfeirio at nifer y bobl a soniodd am sylw yn ymwneud â thema, allan o gyfanswm y bobl a roddodd unrhyw ymateb testun i'r cwestiwn hwnnw.

Disgrifir themâu isod yn nhrefn mynychder ar gyfer pob cwestiwn/is-grŵp.



Ffigur 1. Siart llif o niferoedd yr ymatebion i gwestiynau 35, 36 a 37

Is-grwpiau

Yna rhannwyd yr atebion i gwestiynau 35 a 36 yn is-grwpiau i nodi unrhyw wahaniaethau posibl yn yr atebion i boblogaeth gyfan yr arolwg. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ymatebion gan y rhai a atebodd eu bod yn byw ym mhob sir (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro), y rhai a atebodd 'ie' yn rhanbarthol i anabledd neu broblem iechyd hirdymor, a'r rhai 65 oed a hŷn yn rhanbarthol.

Cafwyd 320 o ymatebion testun i gwestiwn 35 gan ymatebwyr a atebodd eu bod yn byw yn Sir Gaerfyrddin.

Soniodd 51% o'r bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a atebodd yr arolwg am fwy o ymarfer corff, cadw'n heini neu aros yn egniol.

Gwnaeth 13% sylwadau ynghylch cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, teulu neu grwpiau cymunedol, neu gymdeithasu mwy, gydag atebion yn cynnwys "...cwrdd â theulu a ffrindiau yn rheolaidd...", "...cadw mewn cysylltiad/gweld anwyliad" a "...cwrdd a dod i adnabod mwy o bobl...".

Dilynwyd hyn gan fynd allan i'r awyr agored/cyrchu mannau gwyrdd (8%), gofalu am eich lles eich hun (e.e. hunanofal, hunan-gymhelliant) ar 8% a gwella neu gynnal diet iach (8%).

Soniodd 8% o'r rhai yn Sir Gaerfyrddin a atebodd gwestiwn 35 am well cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith neu weithio llai o oriau/ymddeol.

Roedd yr atebion a roddwyd yn cyfuno sylwadau ar ymarfer corff neu gadw'n heini a chael mynediad i fannau gwyrdd neu fynd allan i'r awyr agored. Mae enghreifftiau'n cynnwys "dal ati i ymweld â thraethau a mannau prydferth lleol eraill ar gyfer ymarfer corff a phleser" ac "...ymarfer a mwynhau'r amgylchedd naturiol hardd o'm cwmpas".

C36) Beth, os unrhyw beth, fyddai angen bod ar waith i chi wneud y pethau hyn?

Atebodd 273 o'r rhai a atebodd gwestiwn 36 hefyd eu bod yn byw yn Sir Gaerfyrddin.

Cyngor ynni - targed sero net. Gwrthdaro rhwng Carbon Niwtral a'r effaith ariannol y bydd yn ei chael ar gartrefi â'r defnydd mwyaf o garbon (Cymunedau tlotach a buddsoddiad landlordiaid preifat). Mater enfawr nid yn unig i gyn-filwyr ond i gymunedau. Beth allwn ni ei wneud i liniaru'r gwrthdaro hwn? Hysbysu pobl beth yw eu hawliau.

Angen llawer mwy o barciau a mannau chwarae ar gyfer pob cenhedlaeth wedi'u rhedeg yn dda, wedi'u goleuo'n dda yn y gaeaf.

Ffederasiwn Teuluoedd - Cyllid o dan arian yr UE 80 o erddi. Diogelu mannau gwyrdd. SoDdGA yn rhoi ardaloedd dynodedig. Rydym yn colli gallu mewn cynghorau i warchod yr ardaloedd hyn. Mae yna gyfleoedd cyflogaeth gwych mewn mannau gwyrdd, sy'n gyfle gwych i gyn-filwyr – e.e., ceidwaid cefn gwlad. Edrych ar ffyrdd newydd, gadewch i ni gyflogi cyn-filwyr o Gymuned y Lluoedd Arfog, drwy greu gyrfaoedd awyr agored i ddiogelu ein hamgylchedd.

Logisteg a Pheirianneg. Darparwyr amgen ar gyfer darparwyr ynni newydd, yn ymgorffori mewn tendrau i gyflenwyr eu defnyddio gyda 'chymunedau buddiant'. Lle i feithrin gallu mewn cyflogaeth

Mae pobl yn teimlo cysur os yw cyn-filwyr yn cael eu cyflogi yn y gymuned. Mae'r trydydd sector yn sail i'r statudol. Ar lefel strategol - cynllun cyflogaeth yn Nyfed, i gael swyddi penodol i gyn-filwyr yn y siroedd.

SSAFA – Cyn-filwyr RN yn byw ar eu pen eu hunain. Dechreuodd Cymdeithas y Llynges Frenhinol gynllun o'r enw SPARKO. Lle gall cyn-filwr sy'n byw ar ei ben ei hun siarad â rhywun arall trwy deledu SPARKO. Mae'n ffordd newydd ac arloesol o helpu pobl.

Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin

29.09.2021

Adborth cyffredinol:

- Mae'n anodd cael cymorth pan fyddwch ei angen. Mae aelodau'n holi sut maen nhw'n dod o hyd i bobl sy'n gallu cefnogi a helpu'r gymuned anabl
- Nododd yr aelodau bod bylchau lle nad ydym yn gweithredu'n iawn – mae angen adnabod lle mae pobl yn disgyn trwodd (naill ai oherwydd technoleg, difaterwch cyffredinol ayb)
- Nid yw pobl yn gwranddo - mae hwn yn sylw sy'n seiliedig ar brofiad ac ymgysylltiad blaenorol. Mae aelodau o'r gymuned anabl yn estyn allan yn rheolaidd; fodd bynnag, nid ydynt yn ymwneud â gwneud penderfyniadau ac mae eu lleisiau yn aml yn cael eu colli.

Economaidd:

- Gwelliant o ran gwariant lleol. Mae busnesau lleol wedi gweithio'n galed yn ystod y pandemig i gefnogi eu cymunedau. Mae gwasanaethau lleol wedi gwella o ran hygyrchedd a hyblygrwydd. Gobaith yr aelodau yw bod cymunedau lleol yn parhau i gefnogi eu busnes lleol ar ôl i gyfyngiadau gael eu codi.
- Pryder cyffredinol ynghylch adeiladau gwag yng nghanol trefi, a ellid eu defnyddio fel canolfannau gwasanaeth cyhoeddus / gwirfoddol neu a allent ddarparu cyfleoedd fel canolfannau celf a chreffft?

Cymdeithasol:

- Oherwydd y pandemig, mae llawer o bobl anabl yn dal i gysgodi. Mae manau diogel i gymdeithasu ac ail-adeiladu hyder yn brin. Mae problemau iechyd sylfaenol bellach yn cael eu gwaethygu gan broblemau seicolegol a symudedd.
- Ymddengys bod diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ymhlith aelodau eraill o'r cyhoedd o ran cadw pellter cymdeithasol, gwisgo masgiau ayb, a dylid atgoffa pobl i gymryd gofal.

Diwylliannol:

- Mae celf a chreffft wedi bod yn achubiaeth i lawer o bobl anabl yn ystod y pandemig. Nododd yr aelodau'r prosiect Ailgyylltu trwy'r Grŵp Arweinyddiaeth 50+. Mae dosbarthiadau rhithwir wedi cynnig ystod ehangach o gyfleoedd a rhwydweithiau ar gyfer y gymuned anabl ac mae pryder am y grwpiau yn symud yn ôl i fod yn sesiynau

wyneb yn wyneb. Mae TG yn alluogwr nid yn analluogwr a dylai'r cyfleoedd hybrid hynny fod ar gael i bobl o hyd. Mae trafndiaeth yn parhau i fod yn broblem i bobl anabl sy'n dymuno mynychu'r sesiynau hyn ac mae symud yn ôl i fod wyneb yn wyneb ond yn cynyddu arwahanrwydd cymdeithasol pobl anabl ymhellach.

Amgylcheddol:

- Nododd yr aelodau welliant yn ansawdd yr aer yn ystod y pandemig. Llawer llai o ddefnydd o geir, a yw hyn yn rhoi cyfle i ailffocysu pobl ar ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus / trafndiaeth werdd. Mae angen manau cerdded a llywio diogel. Mae llesiant amgylcheddol yn effeithio ar hapusrwydd ac yn cefnogi pobl i ailadeiladu eu hyder.
- Mae trafndiaeth yn parhau i fod yn fater allweddol a thynnwyd sylw at y diffyg trafndiaeth gyhoeddus. Rhoddwyd enghraifft allweddol o ran trafndiaeth gyhoeddus o Ganol Tref Llanelli i fynychu apwyntiadau yn Ysbyty'r Tywysog Phillip. A ellid gwella'r cydgysylltu rhwng darparwyr trafndiaeth a'r Bwrdd Iechyd?
- Yn anffodus, mae materion hygrychedd yn dal yn amlwg mewn adeiladau newydd a gwasanaethau. Nododd yr aelodau fod ffactorau bob amser yn gweithio yn erbyn y gymuned anabl. Enghraifft o brosiect 'Strydoedd Byw' newydd sy'n cael ei sefydlu yn Llanelli, a fydd yn cynnal archwiliadau stryd i amlygu materion hygrychedd yn y seilwaith.

Fforwm Ieuenctid Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

5 Hydref 2021

Beth mae llesiant yn ei olygu i chi?

- Mae llesiant yn fwy na mannau diogel. Mae'n golygu dealltwriaeth o'r hyn y gallaf ei wneud i fy helpu.
- Mae iechyd meddwl yn bryder penodol a sut i sicrhau fy mod yn gofalu am fy iechyd meddwl yn ddyddiol
- Yn ystod y pandemig, mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin a Dr Mz wedi bod yn bwysig iawn i mi wrth fy nghefnogi i ofalu amdanaf fy hun
- Mae llesiant meddwl wedi bod mor bwysig yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf. Rydyn ni'n cael ein dylanwadu gymaint gan ddigwyddiadau o'n cwmpas; fodd bynnag, trwy fethu â chymdeithasu, nid ydym wedi gallu rhyngweithio a dysgu oddi wrth eraill

Sut gallwn ni helpu i wella eich llesiant?

- Mae angen yr offer ar bobl ifanc i gynnal eu llesiant eu hunain
- Mae angen i ni allu gweithio drwy faterion allweddol
- Rydw i eisiau cael profiad o fyw'n annibynnol – gallu symud ar ôl gorffen fy nghymwysterau
- Rwyf am gymryd blwyddyn i ffwrdd ar ôl fy TGAU – cynyddu fy nghynilion fel y gallaf ddychwelyd i Goleg Sir Gâr
- Rwy'n gweld prentisiaeth fel fy llwybr gyrfa yn y dyfodol
- Rydw i yn y brifysgol ac mae'n bwysig fy mod yn gwneud fy ffordd fy hun – mae yna lawer iawn i'w ddysgu ond mae angen i mi wneud fy nghangymeriadau fy hun. Mae hyn yn cynnwys annibyniaeth ariannol
- Mae'n bwysig i mi wybod ble gallaf gael cymorth

Beth sy'n eich poeni am y dyfodol?

- Ein traethau
- Newid yn yr hinsawdd
- Bywyd gwylt
- Llygredd
- Iechyd meddwl – mae angen yr offer arnom i adnabod pryd y gall pethau fod yn mynd o chwith

Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru, Rhwydwaith Iechyd Meddwl a Llesiant

6.10.2021

Prif feysydd pryder a nodwyd fel rhan o fforymau Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru a thrafodaethau ar yr Asesiadau Llesiant a'r Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, gan fudiadau Gwirfoddol, pobl â phrofiad personol o broblemau iechyd meddwl a gofalwyr.

- **Anawsterau cael mynediad at gymorth iechyd meddwl i rai pobl ifanc**, rhai pobl ifanc yn dal ddim yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer S-CAMHS ond yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i unrhyw gymorth iechyd meddwl cymunedol penodol i iechyd meddwl heblaw cefnogaeth ieuenctid generig a chwrsela ysgol. Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n mynegi anawsterau o ran iechyd meddwl i wasanaethau'r sector gwirfoddol a phobl ifanc â meddyliau a theimladau hunanladdol. Mae rhai rhieni hefyd yn cael trafferthion ac mae teuluoedd yn byw mor agos gyda'i gilydd dros y 18 mis diwethaf wedi achosi rhai problemau ac anawsterau, a thor-perthynas.
- **Cefnogaeth i ofalwyr a theuluoedd pobl â phroblemau iechyd meddwl** o ran gwasanaethau iechyd meddwl yn ymgysylltu â theuluoedd fel rhan o'r cymorth gofal a thriniaeth. Mae gofalwyr/teuluoedd yn aml yn cael eu heithrio o'r cynllunio a'r trafodaethau cymorth ond yn aml nhw yw frif ffynhonnell cefnogaeth argyfwng ac aciwt. Mae rhai Teuluoedd/gofalwyr wedi teimlo effaith cau llawer o wasanaethau iechyd meddwl wyneb yn wyneb a gorfod ymdopi ar eu pen eu hunain heb unrhyw gymorth uniongyrchol. Mae rhai Gofalwyr a theuluoedd wedi ei chael hi'n anodd iawn cael eu gwahanu oddi wrth aelodau'r teulu oherwydd diffyg ymweliadau ar wardiau ysbyty iechyd meddwl dros y 18 mis diwethaf ac mae rhai o'r wardiau ac unigolion wedi cael trafferth gyda mynediad i alwadau fideo.
- **Mae rhai pobl yn cael trafferth gydag opsiynau cymorth wyneb yn wyneb cyfyngedig** ac mae cael mynediad i wasanaethau dros y ffôn a galwadau fideo a chyfryngau cymdeithasol wedi bod yn anodd i rai pobl. Rhai o'r rhesymau a roddir dros gael trafferth gyda galwadau fideo, galwadau ffôn ac ati yw rhai pobl sy'n clywed lleisiau, yn gweld pethau, yn cael lledrithiau. Gall fod yn anodd iawn gweithio allan beth sy'n real a beth sydd ddim. Mae rhai pobl yn cael trafferth gyda pharanoia ac yn teimlo bod pobl yn siarad amdany'n nhw, mae rhai yn cael trafferth gyda'r dechnoleg ac yn brin o hyder i'w defnyddio. Nid oes gan rai pobl yr offer TG a/neu gysylltiad rhyngwyd gwael. Nid oes gan rai pobl y modd ariannol ar gyfer cysylltiad ffôn a rhyngwyd ac mae llawer o leoedd gyda Wi-Fi am ddim wedi'u cau dros y 18 mis diwethaf ac efallai nad yw'r rhain yn fannau cyfrinachol ychwaith. Mae rhai pobl wedi adrodd bod y defnydd o gyfarfodydd a galwadau fideo wedi helpu i

gynyddu mynediad at gymorth iechyd meddwl a gweithgaredd cymdeithasol ac maent wedi dysgu sgiliau newydd. Mae rhai pobl wedi dweud, oherwydd eu pryder ynghylch gadael y cartref, bod galwadau fideo wedi helpu i gael mynediad at bethau a fyddai wedi bod yn anhygyrch yn flaenorol.

- **Dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd iawn cael gafael ar gymorth a chymorth mewn argyfwng y tu allan i oriau (9-5pm)** ar adegau a nifer o bobl yn adrodd am ymateb gwael o ganlyniad i fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd meddyliau a theimladau hunanladdol a dim cefnogaeth ôl-ofal. Anawsterau gyda Thimau Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref ar brydiau a rhai pobl yn adrodd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer unrhyw gymorth iechyd meddwl parhaus, wedi'i asesu gan y CRHT ond dim dilyniant. Er bod rhai pobl yn adrodd am gefnogaeth a gofal rhagorol yn ystod y 18 mis diwethaf gyda chefnogaeth wyneb yn wyneb a chefnogaeth a galwadau dilynol. Mae Noddfa'r Cyfnos a gwasanaethau cyswllt seiciatrigr damweiniau ac achosion brys yn helpu ond mae angen mwy o waith o hyd ar gymorth mewn argyfwng i'w wneud mor hygyrch â phosibl. Hefyd, roedd y gwaith gyda phobl o ran cynllunio gofal yn hysbys i wasanaethau i helpu i gefnogi adeiladu gwasanaeth mewn argyfwng a mynediad hawdd uniongyrchol at gymorth iechyd meddwl i helpu i atal argyfwng i bawb.
- Anhawster cael **mynediad i apwyntiadau meddyg teulu wyneb yn wyneb** dros y 18 mis diwethaf ar gyfer cymorth iechyd meddwl ac anhawster i allu trafod anghenion iechyd meddwl dros fideo neu dros y ffôn.
- Angen cynyddol am **gymorth iechyd meddwl ar gyfer rhiant/rhieni newydd** a'r effaith y mae'r 18 mis diwethaf wedi'i chael ar rieni newydd a babanod heb fynediad at ymweliadau iechyd wyneb yn wyneb, grwpiau rhieni newydd, cymorth i deuluoedd a gweithgarwch cymdeithasol.
- Cynnydd yng **nghymhlethdod a dwyster** anghenion cymorth pobl sy'n dod ymlaen am gymorth iechyd meddwl, felly'n aml amrywiaeth o faterion fel iechyd meddwl a phroblemau cyffuriau ac alcohol, digartrefedd ac iechyd meddwl, ac iechyd meddwl ac awtistiaeth.
- Mae rhai **gwasanaethau yn dal i weithio mewn seilos ar wahân** i'w gilydd o ran profiad pobl sy'n derbyn y gefnogaeth, felly mae tai ac iechyd meddwl ar wahân ac mae anableddau dysgu ac iechyd meddwl ar wahân i rai pobl.
- Angen am **gefnogaeth allgymorth a chyfeillio** i bob oed yn hytrach na bod pobl yn dod i mewn i wasanaethau ac adeiladau ar gyfer apwyntiadau a chymorth. Bydd angen allgymorth a chymorth cyfeillio ar rai pobl i fagu hyder i fynd allan eto a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Mae rhai pobl yn dal i fod yn ofnus iawn ac yn ynysig iawn ac nid ydynt yn mynd allan sydd wir wedi cyfrannu at anawsterau iechyd meddwl. Mae rhai pobl mewn ardaloedd gwledig ac i ffwrdd o Lanelli a Chaerfyrddin yn teimlo ei bod yn anoddach cael cymorth iechyd meddwl

nag mewn lleoliadau trefol. Gall hyn fod oherwydd materion trafndiaeth ond hefyd mae llawer o wasanaethau, canolfannau a hybiau mewn canol trefi a lleoliadau trefol yn hytrach na chael eu cynnal mewn ardaloedd gwledig (ac mae llawer o neuaddau cymunedol wedi'u cau). Mae llawer o heriau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a mynediad i hyn i'w datrys a'u gwella.

- **Pwysigrwydd y gwasanaethau iechyd meddwl statudol, gwirfoddol a chymunedol** sydd wedi parhau i gynnig cefnogaeth wyneb yn wyneb a grŵp (a'r gefnogaeth ar-lein a ffôn ac ati), a chymaint o achubiaeth y bu'r rhain i lawer o bobl yn ystod y 18 mis diwethaf. Pwysigrwydd y gwahanol ffyrdd o gynnig cefnogaeth (wyneb yn wyneb, ffôn, fideo ac ati) a sut mae hyn yn helpu i gyrraedd ystod o wahanol bobl.
- I rai pobl mae **cefnogaeth gan gymheiriaid, a hunanreolaeth** a hyrwyddo a datblygu'r rhain yn hanfodol ar gyfer gwasanaethau cefnogi sy'n edrych ar holl anghenion yr unigolyn a theuluoedd/gofalwyr ac yn cynnig gobaith ac ysbrydoliaeth ar gyfer adferiad. Gwych gweld mwy o gymorth gan gymheiriaid yn datblygu gan gynnwys rolau Cymorth Cyfoedion cyflogedig yn y GIG.
- Mae rhai pobl yn teimlo bod symudedd cymdeithasol a chydraddoldeb yn waeth dros y 18 mis diwethaf ac mae'r anghydraddoldebau a nodwyd yn flaenorol wedi ehangu'n sylweddol.

Ysgol Gynradd Llanybydder

07.09.2021

Cyflwyniad byr

Diolch i'r Pennaeth / Disgyblion am fod mor barod i gwrdd â ni.

Mae lleisiau plant a phobl ifanc mor bwysig yn y gwaith yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd.

Rydym yn edrych ar draws Sir Gaerfyrddin ac yn casglu gwybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i bobl a'u cymunedau. Mae hyn yn cynnwys y pethau sy'n bwysig i chi nawr ond hefyd i'r dyfodol. Bydd pethau gwahanol yn bwysig i ni i gyd.

Ein disgyblion ysgol yw Cenedlaethau'r Dyfodol, ac rydym am glywed am eich gwaith fel ysgol o ran Llesiant.

Os yw'r ysgol yn gwneud llawer o waith o ran Llesiant, ac yn hapus i rannu tystiolaeth o hynny, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

- Chwaraeon ac yn benodol rhedeg
- Gwaith ysgol
- Darllen ac yn benodol y grŵp darllen yn yr ysgol
- Anifeiliaid ac yn benodol ceffylau

Beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

- Teulu, ysgol a ffrindiau
- Teulu, anifeiliaid a ffrindiau
- Anifeiliaid, ffrindiau a'r ysgol
- Teulu, ffrindiau ac athrawon

Beth sy'n bwysig i chi ar gyfer y dyfodol? Pan fyddwch chi'n oedolyn

- Rwy'n gobeithio bod yn berchen ar fferm a gofalu am anifeiliaid
- Rydw i eisiau aros yn Llanybydder a bod yn athrawes
- Rydw i eisiau bod yn Filfeddyg
- Rwyf am fod yn berchen ar dyddyn yn ardal Llanybydder
- Poeni am newid yn yr hinsawdd
- Ddim yn hoffi gweld yr awyrennau yn ôl yn yr awyr - wedi mwynhau'r tawelwch adeg y pandemig
- Eisiau gweld llai o blastig a mwy o ailgylchu ac aildefnyddio
- Eisiau gweld llai o ffatrioedd ar draws y byd

Unrhyw Sylwadau Eraill

- Mae'r ysgol yn defnyddio spkr fel cyfle i'r plant nodi eu peth cyntaf yn y bore.
- Yn ddiweddar maent wedi creu cymeriadau ar gyfer 4 Pwrpas y Cwricwlwm Newydd yng Nghymru. Dyma gymeriad Dinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i fod yn ddinesydd Cymru a'r byd, Ysgol Llanybydder




Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid – Ysgol Bro Dinefwr

Mewn ymateb i Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin, manteisiodd Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ar y cyfle i gynnal ymgynghoriad gyda disgyblion blwyddyn 7 yn Ysgol Bro Dinefwr ar 13 Hydref 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 160 o ddisgyblion ac fe'u rhannwyd yn grwpiau o 4 ac roedd pob sesiwn yn cynnwys 4 grŵp o 4 gan ein bod eisiau iddynt drafod y pwnc gyda'u cyfoedion yn ogystal â chael eu barn eu hunain.

Yn anffodus, nid oeddem yn gallu cynnal yr arolwg oherwydd nad oedd unrhyw Wi-Fi, ond rwy'n meddwl bod hyn wedi rhoi cipolwg pellach i ni ar safbwynt y bobl ifanc o Lesiant, beth sy'n effeithio ar eu llesiant a pha gymorth yr hoffent ei weld.

Daeth yn amlwg yn gynnar yn yr ymgynghoriad bod COVID19 wedi cael effaith fawr ar eu bywydau, a hoffwn ychwanegu bod mwy o agweddau negyddol na chadarnhaol!

Y prif gwestiwn a ofynnwyd i'r bobl ifanc oedd beth oedd yn effeithio ar eu llesiant. O drafodaethau gyda ni a'u cyfoedion yn eu grwpiau fe wnaethon nhw ysgrifennu eu barn ar bapur siart troi. O hyn roeddwn i'n gallu llunio themâu a pha mor aml roedden nhw'n cael eu crybwyll.



Mae **Covid-19** wedi cael effaith fawr ar y rhan fwyaf o bobl ifanc. Roeddent yn teimlo'n ynysig ac yn unig iawn. Fodd bynnag, fe wnaethant fwynhau amser teuluol o ansawdd. Roedd methu â gweld eu ffrindiau a methu â gadael y tŷ am gyfnod hir iawn oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo yn hynod o anodd iddynt. Maent yn dal yn bryderus iawn y byddwn yn cael cyfnod clo arall yn y dyfodol.

Roedd **newid yn yr hinsawdd** hefyd yn bwnc trafod mawr gan fod ganddynt farn gref iawn ar hyn, ond nid wyf yn siŵr ai'r hyn y maent yn ei feddwl mewn gwirionedd neu ai'r hyn y maent wedi'i glywed sydd wedi gwneud iddynt deimlo mor gryf yn ei gylch.

Cyfeiriwyd hefyd at **ddysmorffia'r corff** gyda bechgyn a merched a sut maent yn teimlo amdanynt eu hunain.


Bwlio a seibrfwlio dros y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae **Iselder/Gorbryder** wedi cynyddu yn ôl y bobl ifanc gan eu bod yn teimlo eu bod wedi bod dan gyfyngiadau symud a heb gyfathrebu ag eraill. Roedd ffitio i mewn gyda'u cyfoedion yn rhywbeth a ddaeth i'r amlwg.

Homoffobia

Roedd **tlodi** yn fater arall gyda rhai o'r bobl ifanc yn dweud bod angen mwy o arian ar eu teuluoedd ar gyfer bwyd a dillad. Nid oedd digon o arian bob amser iddynt i gyd allu bwyta.

Cwestiwn arall a ofynnwyd gennym oedd pa gymorth yr oeddent yn teimlo yr oedd ei angen arnynt. O drafodaethau gyda ni a'u cyfoedion yn eu grwpiau fe wnaethon nhw ysgrifennu eu barn ar bapur siart troi. O hyn roeddwn i'n gallu llunio themâu a pha mor aml roedden nhw'n cael eu crybwyll.



Wrth drafod y cymorth yr oedd y bobl ifanc yn teimlo bod ei angen arnynt, roedd yn amlwg eu bod i gyd eisiau un oedolyn dibynadwy y gallent ymddiried ynddo.


Cefnogaeth oedd yr allwedd gyda syniadau amrywiol gan athrawon, yr heddlu, ffrindiau, teulu, a ChildLine, ond roeddent yn ansicr iawn at bwy i estyn allan am gefnogaeth.

Roedd cymorth gyda bwlio hefyd yn broblem gan fod y cyfan yn deillio o gael person dibynadwy i siarad ag ef.


Roedd mwy o arian ar gyfer bwyd yn peri cryn bryder gan fod nifer o bobl ifanc yn eithaf pryderus am hyn a'r effeithiau yr oedd yn ei gael ar eu teulu.

Dysgu yn yr awyr agored; daeth y bobl ifanc â hyn i'n sylw hefyd gan eu bod yn teimlo y gallent fynegi eu hunain yn well a dysgu mwy.

Pan drafodwyd yr arolwg gyda'r bobl ifanc roedd yn amlwg bod cwestiwn 2 Eich bywyd nawr a chwestiwn 3 Eich bywyd yn y dyfodol yn anodd iddynt. Mae eu bywyd bellach wedi newid cymaint fel nad oedden nhw'n gallu amgyffred y cyd-destun a doedd ganddyn nhw ddim syniad beth oedden nhw eisiau ei wneud. Siaradais â rhai o athrawon yr ysgol ynghylch y bobl ifanc ac roeddent o'r un farn â mi. Maen nhw wedi colli talp mawr o'u bywyd a'u haddysg dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac er eu bod yn ddisgyblion blwyddyn 7 roedden nhw'n ymddangos yn llawer iau. Byddai wedi bod yn fwy manteisiol holi disgyblion hŷn.



WHAT ARE THE BIGGEST PROBLEMS FACING THE WORLD RIGHT NOW?



Braf oedd cael y cyfle i gwrdd â phobl ifanc blwyddyn 7 Ysgol Bro Dinefwr. Byddai wedi bod yn fanteisiol cael mwy o amser gyda nhw ac esbonio'n fanylach, wedyn byddent wedi gallu deall y cwestiynau'n well. Dim ond 15 munud a gawsom ar gyfer 4 grŵp o 4 mewn cylchdro nad oedd yn rhoi llawer o amser i ni, ond roedd yn wych cael rhywfaint o fewnbwn gan y bobl ifanc. Byddai hefyd wedi bod yn fanteisiol efallai cael mewnbwn y disgyblion hŷn oherwydd efallai y byddent wedi gallu ateb y cwestiynau yn haws yn enwedig am eu dyfodol.

Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

- Darllen
- Ffrindiau
- Hafan Dawel yn yr ysgol - gardd a luniwyd drwy'r prosiect Heddychwyr Ifanc
- Pêl-droed
- Addysg dda
- Rheolau a deall pam eu bod yno i'n helpu
- Teulu
- Ioga yn yr ysgol drwy Saib a Symud
- Gwasanaethau ysgol
- Athrawon gwych

Beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

- Cartref
- Caredigrwydd
- Y Gymraeg
- Hawliau Plant – hawl i addysg a hawl i gartref diogel

Beth sy'n bwysig i chi ar gyfer y dyfodol? Pan fyddwch chi'n oedolyn

- Helpu'r gymuned a'r amgylchedd
- Bod yr ysgol hon ar gyfer fy mhlant
- Gofalu am ein planed – 'Does dim Planed B' (prosiect a fideo gyda'r ysgol)
- Ailgylchu ac aildefnyddio

Prosiectau ysgol

- Cerdded y daith fyd-eang
- Gwobr Heddychwyr Ifanc
- Siarter Heddlu Dyfed Powys
- Does dim Planed B
- Twm y Llew – gwaith gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant

Ysgol Gynradd Llandeilo

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

- Bwyd
- Peidio â bod mewn poen corfforol
- Chwarae gydag anifeiliaid anwes
- Cael cwmni ffrindiau
- Bod yn ddiogel
- Prynu pethau

Beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

- Gwneud pethau hwyliog gyda'n gilydd
- Cael caeau i'r anifeiliaid
- Peidio â chwympo mas
- Cysur mam a dad

Beth sy'n bwysig i chi ar gyfer y dyfodol? Pan fyddwch chi'n oedolyn

- Cael swydd sy'n gwneud i Bobl deimlo'n hapus
- Helpu'r gymuned, gwirfoddoli
- Cael amser i ymlacio ac ymddeol
- Gwneud y blaned yn fwy ecogyfeillgar

Unrhyw Sylwadau Eraill

Mae'r ysgol yn darparu cŵn i gysuro plant gofidus

Mae'r ysgol yn defnyddio 'spkr' i roi'r cyfle i blant nodi a ydynt yn drist heb orfod siarad

Mae'r ysgol yn addysgu themâu fel caredigrwydd, empathi ac ymlacio i annog llesiant a gofal o'n cyd-ddyn.

Ysgol Gynradd Drefach

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

- Ffrindiau, rygbi a pêl-droed, ymlacio, gwyllo Cymru yn chwarae rygbi
- **Beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu?**
- Chwarae gyda brodyr a chwiorydd
- Gweithio rygbi gyda dad
- Cyfeillion yn byw gerllaw
- Mynd am dro ar y trac beicio ar y beiciau
- Chwarae gyda'r cŵn
- Chwael yn y parc – cael sleidiau mawr yn y parc, Parc Drefach yn well na Cross Hands
- **Beth sy'n bwysig i chi ar gyfer y dyfodol? Pan fyddwch chi'n oedolyn**
- Gyrru car
- Gwyllo teledu
- Mynd gyda'r plant am dro i'r parc
- Mynd gyda'r plant ar y beiciau
- Gyrru tryciau
- Cael swydd i gael rhywbeth i'w wneud
- Cael gwaith i gael arian
- Cael arian i brynu teganau i'r plant
- Cael tŷ i fyw ynddo

Unrhyw Sylwadau Eraill

- Maent yn hoffi cael mwythau pan fyddant yn drist, gydag athro neu rieni
- Mae'r ysgol yn defnyddio amser cylch i drafod materion yn ymwneud â llesiant
- Roedd blwch sylwadau yn arfer bod yn brysur yn yr ysgol ond nid ers covid.

Ysgol Gynradd Llangynnwr

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

- Mynd â'r ci am dro
- Cael awyr iach
- Cyd-dynnu'n dda gyda fy mrodyr a chwirydd
- Chwarae gemau gyda dad
- Mynd ar y beic y tu allan
- Chwarae gyda ffrindiau
- Gweithio gyda ffrindiau yn yr ysgol
- Chwarae pêl-droed
- Chwarae pêl-rwyd yn y Pod yng Nghaerfyrddin. Mae'r hyfforddwr yn neis iawn
- Chwarae chwaraeon gyda thîm – teimlo'n rhydd, dim pryderon
- Gwella eu sgiliau
- Trip ysgol
- Gwneud gwaith da
- Cofio popeth sydd ei angen arnoch yn y bore
- Cysgu'n dda a deffro heb fod dal yn flinedig

Beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

- Plant yn gwneud yn dda yn yr ysgol
- Mae'r plant yn gwneud eu gorau
- Traeth
- Eu bod yn gwella eu sgiliau chwaraeon
- [Mynd i weld fy mam-gu a thad-cu](#)
- Mynd am dro
- Bod pawb yn garedig â'i gilydd
- Bod pawb yn dawel
- Clybiau hamdden neu byddem yn sownd yn y tŷ heb ddim i'w wneud

Beth sy'n bwysig i chi ar gyfer y dyfodol? Pan fyddwch chi'n oedolyn

- Cael swydd dda a phwysig
- Cael arian i brynu bwyd
- Car i deithio
- Cael gweld lleoedd newydd
- Cael anifeiliaid anwes
- Gwella ar bethau rydyn ni'n eu gwneud nawr – fel pêl-droed
- Mynd am dro

Unrhyw Sylwadau Eraill

- Mae'r ysgol yn gwneud llawer o waith ar feddylfryd twf
- Defnyddio *spkr*
- Mae Mrs Jones ar gael am sgwrs pan fydd plentyn yn teimlo'n drist. Mae Mrs Jones yn helpu'r plant i feddwl am ffordd o ddatrys eu problemau.

Ysgol Gynradd Pen Rhos

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

- Bod yn gyfforddus
- Teimlo'n ddiogel
- Ffrindiau
- Chwarae gemau gyda fy nheulu
- Chwarae pêl-droed
- Bod gyda fy ffrindiau yn yr ysgol
- Anifeiliaid anwes
- Gweithio gyda ffrindiau yn yr ysgol

Beth sy'n bwysig i chi a'ch teulu?

- Amser gyda'n gilydd
- Gofalu am ein gilydd a rhannu
- Ein bod yn gwneud ein gorau
- Amser gyda Thad-cu

Beth sy'n bwysig i chi ar gyfer y dyfodol? Pan fyddwch chi'n oedolyn

- Cael swydd dda – eisiau mynd i'r Fyddin
- Cael swydd dda – eisiau bod yn Athro
- Cael swydd dda - eisiau bod yn Beiriannydd a gweithio gyda fy Nhad-cu
- Cael swydd dda – eisiau bod yn Filfeddyg
- Byddwch yn iach ac yn hapus
- Ymarfer Corff
- Gofalu am Ein Byd
- Bwyta'n iach
- Ailgylchu

Unrhyw sylwadau eraill?

- Mae'r plant wrth eu bodd yn gwneud loga
- Mae gan yr Ysgol Jar Diolchgarwch
- Mae'r plant wrth eu bodd yn gwneud cerdded yn ddyddiol o amgylch tir yr ysgol

Aseiad o Lesiant Lleol Sir Gaerfyrddin

Pecyn Cymorth Digwyddiadau Ar-lein Rhanddeiliaid



Cynnwys:

Cyflwyniad

Eich Digwyddiad Rhanddeiliaid

- Cyfarfodydd Dwyieithog
- Trefniadau
- Torri'r garw
- Fideo Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Sioe sleidiau Power Point
 - Cefndir Sir Gaerfyrddin
 - 4 prif bwynt trafod
 - Llesiant Economaidd
 - Llesiant Cymdeithasol
 - Llesiant Diwylliannol
 - Llesiant Amgylcheddol
 - Sut i gymryd rhan bellach
 - Arolwg rhanbarthol
 - Ymgynghoriad ar yr Aseiad drafft o Lesiant Lleol
 - Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cynllun Llesiant nesaf
- Dewisol - sut i ddefnyddio byrddau gwyn rhithwir ac arolygon barn ar-lein ar gyfer eich digwyddiad.
- Dewisol - sut i ddefnyddio arolygon barn ar-lein ar gyfer eich digwyddiad
- Dewisol – maes parcio rhithwir

Gwybodaeth Bellach ac adnoddau cefndir

Yr Hanfodion – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Taflen Ffeithiau Sir Gaerfyrddin

Gwefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Gwefan Llywodraeth Cymru ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cyflwyniad

Diolch yn fawr iawn am naill ai gynnig neu ystyried cynnal digwyddiad rhanddeiliaid ar gyfer Aseiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Mae llais rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol wrth gynhyrchu'r Aseiad. Mae angen i holl bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin gyflawni'r digwyddiadau rhanddeiliaid.

Mae angen i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin gynnal Aseiad o Lesiant Lleol i lywio'r gwaith o ysgrifennu'r Cynllun Llesiant nesaf. Rydym am gasglu barn pobl Sir Gaerfyrddin yn ystod mis Awst a mis Medi 2021. Bydd hyn drwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid a hefyd arolwg rhanbarthol, (yr ydym yn ei gynnal gyda'n partneriaid, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Benfro). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn, ochr yn ochr â data arall, i ysgrifennu Aseiad o Lesiant Lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae'r digwyddiad ar-lein yn dechrau gyda fideo byr sy'n rhoi cefndir i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wedyn mae gennym Gyflwyniad PowerPoint sy'n rhoi cyd-destun, ffeithiau a chefnidir Sir Gaerfyrddin. Mae'r PowerPoint yn ymdrin â phedwar prif bwynt trafod.

1. Llesiant Economaidd
2. Llesiant Cymdeithasol
3. Llesiant Diwylliannol
4. Llesiant Amgylcheddol

Daw'r cyflwyniad i ben gyda gwahoddiad i bobl gwblhau'r Arolwg Llesiant Rhanbarthol.

Yn ei ffurf symlaf mae'r Digwyddiad Rhanddeiliaid yn cynnwys y fideo a'r cyflwyniad PowerPoint ac mae'n addas i'w gyflwyno trwy Microsoft Teams neu Zoom. Rydym hefyd wedi rhoi'r opsiynau i chi o gynnwys adnoddau torri'r garw, arolygon barn ar-lein a byrddau gwyn rhithwir. Mae hyn yn golygu y gallwch chi addasu eich digwyddiad rhanddeiliaid i gwrdd â'ch trefniadau a'ch sgiliau TG yn ogystal â theilwra'r digwyddiad i weddu orau i'ch cyfranogwyr. Dylai'r digwyddiad gymryd awr i awr a hanner.

Yn olaf, rydym wedi darparu Ffurflen Cofnodi Sesiwn Llesiant fel y gallwch roi adborth ar y pwyntiau trafod, a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ysgrifennu Aseiad o Lesiant Lleol Sir Gaerfyrddin.

Cyfarfodydd Dwyieithog

Mae'r pecyn cymorth digwyddiadau rhanddeiliaid isod wedi'i lunio fel y gellir cyflwyno'r sesiynau'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn cynghori eich bod yn dilyn polisi eich sefydliad eich hun ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog.

- Mae'r fideo byr ar lesiant ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Mae'r sleidiau PowerPoint yn ddwyieithog, gyda thestun Cymraeg a Saesneg ar bob sleid.

- Mae'r pecyn cymorth rhanddeiliaid ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, rydym ar hyn o bryd yn defnyddio Teams ar gyfer y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd ar-lein. Cysylltwch â'r Uned Gyfieithu am gymorth i drefnu cyfieithu ar y pryd.

Trefniadau

Efallai y byddwch am osod rhai canllawiau ar gyfer eich grŵp gyda'r pwyntiau canlynol:

- Defnyddio'r arwydd dwylo i fyny neu sgwrs grŵp os ydych chi eisiau siarad neu ofyn cwestiynau.
- Rhoi eich meicroffon ar mud i atal unrhyw sŵn cefndir.
- Os ydych chi'n dioddef o broblemau lled band, ceisiwch ddiffodd camerâu.
- Parchu safbwyntiau pobl eraill.
- Cymryd rhan mewn trafodaeth gyffredinol ar lesiant a pheidio â rhannu gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol.
- Gobeithiwn y byddwch yn cwblhau'r sesiwn hon mewn cyfnod rhesymol o amser, ond mae croeso i chi gymryd egwyl os yw'n rhan o gyfarfod mwy.
- Teimlo'n rhydd i ddefnyddio'r wyneb hapus, bodiau i fyny a symbolau clapio i annog yr hwylusydd!

Torri'r garw

5-10 munud

Mae croeso i chi ychwanegu gweithgaredd torri'r garw ar ddechrau eich digwyddiad rhanddeiliaid. Mae hwn yn ychwanegiad dewisol i'w ddefnyddio os ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn helpu'r grŵp i ymlacio a dod i adnabod ei gilydd. Yn ddelfrydol, bydd eich grŵp yn cynnwys tua 8 i 16 o bobl. Cofiwch yr amser a gymerir i dorri'r garw os yw'r grŵp yn rhy fawr neu ddim yn ddefnyddiol mewn gwirionedd os mai dim ond ychydig o bobl sydd yn y digwyddiad. Rydyn ni wedi awgrymu cwpl o weithgareddau torri'r garw isod - neu mae croeso i chi ddefnyddio'ch gweithgaredd torri'r garw eich hun!

1. “Wythnos mewn Tri Gair”

Gofynnwch i bobl gyflwyno eu hunain a disgrifio eu hwythnos hyd yn hyn mewn tri gair yn unig. Yna gallwch chi grynhoi trwy dynnu sylw at rai o'r geiriau sy'n adlewyrchu llesiant.

2. “Gwnaeth hyn i mi chwerthin”

Gofynnwch i gyfranogwyr rannu eu henwau a rhywbeth sydd wedi gwneud iddynt chwerthin yn ystod y 24 awr ddiwethaf. Yna gallwch chi fyfrio ar hapusrwydd a llesiant i helpu i osod y llwyfan ar gyfer y sesiwn.

Fideo Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

3 munud

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu eich sgrin ac yna lansiwch y fideo Cymraeg neu Saesneg. Dim ond ychydig dros ddwy funud y mae'r fideos yn para ac maent yn rhoi esboniad cryno a chllir o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n

werth gwirio gyda chydweithiwr ymlaen llaw y gall eraill glywed sain y fideo, oherwydd weithiau gall hyn achosi problemau.

Er mwyn gwella hygyrchedd, rydym yn argymhell eich bod yn troi'r isdeitlau ymlaen.

Dolen i fideo Cymraeg ar YouTube

https://www.youtube.com/watch?v=hGGlcqx_6jA

Dolen i fideo Saesneg ar YouTube

<https://www.youtube.com/watch?v=RuYzNgUZi98>

Cyflwyniad PowerPoint a Thrafodaeth Llesiant 45 munud i 1 awr

Mae'r cyflwyniad PowerPoint yn rhoi cyflwyniad byr i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a'r digwyddiad ymgysylltu. Nid ydym wedi cynnwys manylion am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y fideo. Mae'r sleidiau yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. I sicrhau'r hygyrchedd mwyaf, cyflwynir y sleidiau mewn ffont Arial, yr ymyl chwith yn syth a heb ddelweddau ac addurniadau.

Mae prif ran y PowerPoint yn ymdrin â 4 prif bwynt trafod –

- Llesiant Economaidd
- Llesiant Cymdeithasol
- Llesiant Diwylliannol
- Llesiant Amgylcheddol

Rydym yn cyflwyno pob thema a phwynt trafod gyda thair ffaith allweddol yn ymwneud â llesiant yn Sir Gaerfyrddin.

Yna bydd angen i chi hwyluso trafodaeth ar bob thema, gyda dau brif gwestiwn ar gyfer eich grŵp:

- Beth yw'r [un o ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol] sy'n bwysig i lesiant eich cymuned?
- Beth sydd angen ei newid i sicrhau llesiant [un o economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol] ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (30-40 mlynedd)?

Cofiwch y bydd angen i chi gasglu'r prif bwyntiau o'ch trafodaethau. Rydym yn argymhell eich bod yn trefnu bod rhywun yn cymryd nodiadau neu gofnodion. Bydd angen i chi lenwi Ffurflen Cofnodi Sesiwn Llesiant, gweler isod am ragor o fanylion. Gallwch hefyd recordio'r sesiwn ar Teams a Zoom i'w thrawsgrifio'n ddiweddarach os yw cyfranogwyr yn hapus i chi wneud hynny. Sicrhewch eich bod wedi gofyn am eu caniatâd.

Sut i gymryd rhan bellach

Mae'r sioe sleidiau yn gorffen gyda gwahoddiadau i:

- Cymryd rhan yn yr arolwg rhanbarthol, sy'n cael ei gynnal nawr.

- Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar yr Asesiad o Lesiant Lleol Drafft, hydref 2021.
- Cymryd rhan yn yr ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol nesaf Sir Gaerfyrddin, haf 2022.

Byddai'n dda cyfeirio mynychwyr at gyfleoedd pellach i gyfranogi ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol.

Mae'r arolwg ar-lein yn cael ei gynnal tan 8 Hydref 2021. Mae cymryd rhan yn yr arolwg ar-lein yn gyfle gwych i bobl gyfrannu eu barn unigol. Ewch i dudalen we Ymgynghoriadau'r Cyngor Sir am ddolen i'r arolwg.

[Arolwg Llesiant](#)

Dewisol - Byrddau Gwyn Rhithwir

Wrth drafod y pedair prif thema, mae gennych yr opsiwn ychwanegol dewisol o ddefnyddio bwrdd gwyn rhithwir ar Teams neu Zoom. Mae hyn yn golygu y gallwch chi, neu ysgrifennydd enwebedig, ysgrifennu'r geiriau allweddol. Gall hyn helpu gyda'r drafodaeth gyffredinol. Yr anfanteision yw ceisio dal gormod o wybodaeth ar y bwrdd gwyn a methu â gweld pobl mor glir oherwydd bod y bwrdd gwyn yn cymryd lle ar sgrin eich cynhadledd fideo.

Gweler y fideos isod os oes angen cyfarwyddyd arnoch ar sut i ddefnyddio byrddau gwyn.

Sut i ddefnyddio'r bwrdd gwyn yn Microsoft Teams

<https://www.youtube.com/watch?v=YBnojDFXo4k>

Sut i ddefnyddio'r bwrdd gwyn yn Zoom

<https://www.youtube.com/watch?v=jQ4-wrwHAXk>

Dewisol - Arolygon Ar-lein

Mae'r opsiwn ychwanegol hwn yn ffordd wych o gael pobl i gymryd rhan yn eich digwyddiad, gan gynnwys aelodau tawelach y grŵp.

Rydym yn awgrymu gofyn ychydig o gwestiynau amlddewis syml ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyflwyniad PowerPoint. Ar ôl i bawb 'bleidleisio' bydd y canlyniadau'n cael eu dangos a gallant ysgogi trafodaeth fer. Cofiwch dicio'r botwm ymateb dienw fel y gall pobl bleidleisio'n gyfrinachol.

Cwestiynau arolwg i'w gofyn ar ddechrau eich sesiwn.

Beth yw eich barn am lesiant yn eich cymuned? Ticiwch un o'r canlynol:

Da iawn

Da

Niwtral

Gwael
Gwael iawn

Beth yw'r heriau mwyaf i lesiant yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd? (Ticiwch y tri pwysicaf).

Gwasanaethau Cyhoeddus
Pobl yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd yn eu cymunedau
Trafnidiaeth
Llety
Cyflogaeth
Mynd i'r afael â thlodi
Iechyd
Addysg
Cysylltedd Digidol
Amgylchedd
Newid yn yr Hinsawdd
Arall

Cwestiynau arolwg i'w gofyn ar ddiwedd eich sesiwn.

Sut ydych chi'n teimlo am lesiant yn Sir Gaerfyrddin ar ôl y digwyddiad hwn? Ticiwch un o'r canlynol:

Optimistaidd iawn
Optimistaidd
Niwtral
Pesimistaidd
Pesimistaidd iawn

Yn eich barn chi, beth fydd yr heriau mwyaf i lesiant yn Sir Gaerfyrddin dros yr 20-40 mlynedd nesaf? (Ticiwch y tri pwysicaf).

Gwasanaethau Cyhoeddus
Pobl yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd yn eu cymunedau
Trafnidiaeth
Llety
Cyflogaeth
Mynd i'r afael â thlodi
Iechyd
Addysg
Cysylltedd Digidol
Amgylchedd
Newid yn yr Hinsawdd
Arall

Angen help i greu arolygon barn ar-lein? Edrychwch ar y fideos isod.

Sut i ddefnyddio arolygon barn ar Microsoft Teams gan ddefnyddio Microsoft Forms
[How to use the NEW built-in Polls in Microsoft Teams meetings - YouTube](#)

Sut i ddefnyddio arolygon ar Zoom
[How to Create and Launch Polls in Zoom Meetings | Zoom Polls Tutorial - YouTube](#)

Dewisol – Maes Parcio Rhithwir

Os bydd un pwnc neu fater yn dechrau dominyddu'r digwyddiad rhanddeiliaid, parciwch ef yn y maes parcio rhithwir. Yna gellir mynd i'r afael â'r mater yn ddiweddarach neu mewn cyfarfod ar wahân os oes angen. Mae'r maes parcio rhithwir hefyd yn lle da i barcio unrhyw geisiadau gwasanaeth unigol y gellir mynd ar eu trywydd ar ôl y digwyddiad rhanddeiliaid.

Ffurflen Cofnodi Sesiwn Llesiant.

Cyfeiriwch at y ffurflen am fanylion.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi adborth ar eich digwyddiad gan ddefnyddio'r ffurflen. Mae hyn yn golygu y bydd cysondeb wrth adrodd a dadansoddi. Dychwelwch eich ffurflenni at [Llinos Evans](#).

Gwybodaeth Bellach ac adnoddau cefndir

[Yr Hanfodion. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Taflen Ffeithiau Sir Gaerfyrddin, wedi'i chynnwys yn y pecyn cymorth.

[Gwefan BGC Sir Gaerfyrddin](#)

[Gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.](#)

[Unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Llinos Evans - LlinEvans@carmarthenshire.gov.uk](mailto:LlinEvans@carmarthenshire.gov.uk)

Ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant Lleol drafft

Yn dilyn cymeradwyo'r Asesiad Llesiant drafft yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 24 Tachwedd 2021, cam nesaf cynhyrchu'r Asesiad oedd ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Derbyniodd ein Haelodau BGC ac Ymgynghorai Statudol gopi o'r Asesiad drafft a gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ac awgrymiadau.

Derbyniodd yr holl rwydweithiau a fforymau a gymerodd ran yn yr ymarfer ymgysylltu cyntaf gopi o'r Asesiad drafft a chyfle i roi adborth drwy'r arolwg ar-lein (1 Rhagfyr 2021 - 19 Ionawr 2022).

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, manteisiwyd ar y cyfle i gryfhau unrhyw feysydd yn ôl yr angen, gyda chyfranogiad partneriaid, yn seiliedig ar ganlyniad trafodaeth y BGC ar yr Asesiad Llesiant drafft. Darparodd partneriaid hefyd astudiaethau achos o ymyriadau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r heriau a nodwyd.


Fel rhan o'r ymgynghoriad, cafwyd ymatebion gan:

- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (sylwadau wedi'u hymgorffori)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Is-adran Lleoedd a Chynaliadwyedd Cyngor Sir Caerfyrddin
- Is-adran Gwasanaethau Integredig Cyngor Sir Caerfyrddin
- Is-adran Tai Cyngor Sir Caerfyrddin
- Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cyngor Sir Caerfyrddin

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Asesiad Llesiant Drafft Sir Gaerfyrddin

Cafwyd cyfanswm o 26 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr asesiad llesiant drafft, roedd 22 gan unigolion a 4 ymateb gan sefydliadau. Y sefydliadau a ymatebodd oedd Cyngor Cymuned Llanedi, CYCA, Adran Blynnyddoedd Cynnar ac Atal, Cyngor Sir Gaerfyrddin ac un sefydliad anhysbys. Dosbarthwyd yr ymgynghoriad i bob cyngor tref a chymuned, aelodau etholiadol, sefydliadau partner a llawer o grwpiau rhwydwaith o fewn y sir.

A ydych chi'n meddwl ein bod wedi nodi'r materion cywir o ran yr adran Cyd-destun Sir Gaerfyrddin?




Sylwadau a dderbyniwyd ar bennod 'Cyd-destun' Sir Gaerfyrddin:

- Mae'n ddogfen mor strategol na fyddai'r cyhoedd yn ei deall mewn gwirionedd.
- Teimlaf fod y cyd-destun yn ymddangos yn eithaf cywir er gyda dim ond cynnydd bychan mewn tlodi, sut mae gan y sir bron i draean o'i phoblogaeth mewn tlodi. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen rhoi sylw iddo.

Pa faterion ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'u methu mewn perthynas ag adran 'Cyd-destun' Sir Gaerfyrddin:

- Nid yw Cyngorau Cymuned yn cael eu cydnabod fel sefydliadau partner
- Mae gennym ni 6 synnwyr, rydych chi wedi colli un ohonyn nhw'n llwyr, mae clyw a chlyweld wedi'i gollu'n llwyr, mae sŵn a sain yn faterion allweddol
- NID MATER O'R HYN SYDD AR GOLL. MAE YMA LAWER O EIRIAU Y TALWYD AMDANYNT. GALLAI'R ANGHENION BRYD HEDDIW FOD WEDI DECHRAU FLYNYDDOEDD YN ÔL

A ydych chi'n meddwl ein bod wedi nodi'r materion cywir o ran yr adran 'dechrau newydd' Sir Gaerfyrddin?



Sylwadau a dderbyniwyd ar y bennod 'Dechrau Newydd':

- Dywedodd yr ymatebwyr fod y ffeithiau'n glir ac yn gywir

Pa faterion ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'u methu mewn perthynas â'r adran 'Dechrau Newydd'?

- Diffyg cyfleoedd i gymdeithasu a chwarae
- Clyw yw un o'n synhwyrâu mwyaf hanfodol, does dim byd yma mewn perthynas â dechrau newydd, mae sŵn a sain yn effeithio'n uniongyrchol ar gyfathrebu sy'n hanfodol
- Yn dilyn ymgynghoriadau niferus gyda rhieni/gofalwyr plant 0-7 oed a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar (bydwreigiaeth, Ymwelwyr Iechyd, Lleferydd ac Iaith, addysg, gofal plant, addysg, cymorth i deuluoedd) mae LIC yn buddsoddi mewn gwasanaethau Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru. Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn rhan o hyn fel Cynllun Braenaru ers nifer o flynyddoedd ac mae'n treialu ffordd integredig o weithio ar draws gwasanaethau mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar yn ardal Cwm Gwendraeth. Byddai'n amserol cynnwys y gwaith hwn yn y bennod Dechrau Newydd a/neu'r bennod ar blentyndod gan y bydd yn cael effaith sylweddol ar y ffordd yr ydym yn darparu'r gwasanaethau hyn i deuluoedd ar draws y rhanbarth ac mae'n ymateb uniongyrchol i'r hyn y mae teuluoedd yn ei ddweud wrthym sydd ei angen arnynt o'r gwasanaethau hyn. Mae strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ranbarthol yn cael ei datblygu a chaiff ei chwblhau erbyn 31 Mawrth 2022 a fydd yn darparu'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar am y 5 mlynedd nesaf.

A ydych chi'n meddwl ein bod wedi nodi'r materion cywir o ran yr adran 'plentyndod'?



Sylwadau a dderbyniwyd ar y bennod 'Plentyndod':

- ANGEN GWAHANIAETHU'R GWAHANIAETHAU MEWN AFIECHYD EMOSIYNOL AC AFIECHYD MEDDWL
- mae'r sylw ar dlodi a gordewdra ymhlith plant yn ddiddorol a byddai rhywun yn ystyried diet y rhai sydd mewn tloidi a'r rhai nad ydynt mewn tloidi i weld ble mae'r broblem.

Pa faterion ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'u methu mewn perthynas â'r adran 'Plentyndod'?

- Rwy'n ansicr a yw llais y plentyn wedi'i ddal
- Diffyg cyfleoedd i gymdeithasu a chwarae anffurfiol

- Nid wyf yn siŵr os yw'n fwy defnyddiol canolbwyntio ar ordewdra nag, er enghraifft, mynediad i fannau gwyrdd
- Maen nhw'n eu lladd gyda brechlynnau, onid oedd hynny'n anghyfreithlon?
- Rydych chi wedi methu'r synhwyrau allweddol, mae seinweddau da ar gyfer addysg a dysgu yn fater allweddol
- Nid oedd mynediad i fannau chwarae awyr agored wedi cael sylw. Yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

A ydych chi'n meddwl ein bod wedi nodi'r materion cywir o ran yr adran 'ieuentid'?



Sylwadau a dderbyniwyd ar yr adran 'ieuentid':

- Roeddwn yn siomedig i beidio â gweld blaenoriaeth (coch) benodol i ieuentid. e.e. bwlio
- mae homoffobia yn broblem real i bobl ifanc
- ANGEN GWAHANIAETHU'R GWAHANIAETHAU MEWN AFIECHYD EMOSIYNOL AC AFIECHYD MEDDWL
- mae'n ymddangos bod y cwricwlwm ysgol yn rhoi gwerth ar y byd academiaidd yn hytrach na galwedigaethol, a fydd unrhyw ysgogiad i gynnwys dysgu galwedigaethol o fewn y cwricwlwm
- Lle mae'r bobl ifanc wedi nodi bwlio fel ffactor o lesiant, byddai wedi bod yn ddiddorol gweld pa fath o fwlio sydd dan sylw, e.e. crefydd neu hil.

Pa faterion ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'u methu o ran yr adran 'ieuentid'?

- Er yr ymgynghorwyd â phobl ifanc, a ddaeth y wybodaeth hon o ystod eang?
- Diffyg cyfleoedd i gymdeithasu a manau creadigol.
- Oni bai eu bod yn goroesi'r holocost brechlyn hwn, ni fyddant yn atgynhyrchu, ychydig o broblem felly, trawiad ar y galon, citiau gwaed, cyfrif sberm yn gostwng, cynnydd enfawr mewn genedigaethau marw, 1,800+ o farwolaethau o frechlynnau yn y DU yn unig
- Ar gyfer ieuentid, beth am yr effaith ar glyw o glustffonau yn y glust? Mannau tawel i leddfu straen ac ati, mae hyn yn hanfodol bwysig i iechyd da
- Mae llawer o raglenni ieuentid a chlybiau ieuentid wedi cau. Nid oedd unrhyw gyfeiriad at glybiau cymunedol a gweithgareddau i bobl ifanc.

Sylwadau a dderbyniwyd ar y bennod 'oedolion':

- Mae cyfraddau hunanladdiad yn flaenoriaeth, ond dim ond 'monitro' (melyn) yw 'iechyd meddwl'. Ymddangos yn rhyfedd
- ANGEN GWAHANIAETHU'R GWAHANIAETHAU MEWN AFIECHYD EMOSIYNOL AC AFIECHYD MEDDWL

- Angen mynd i'r afael â thlodi a thlodi mewn gwaith, ac mae tipio anghyfreithlon yn broblem - mwy o heddlu os gwelwch yn dda!

A ydych chi'n meddwl ein bod wedi nodi'r materion cywir o ran yr adran 'oedolion'?



Pa faterion ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'u methu mewn perthynas â'r adran 'oedolion':

- Eto mae data ystadegol yn wych ond a ymgynghorwyd ag ystod eang?
- Pryderu nad yw 'gordewdra' yn fesur defnyddiol o iechyd.
- Llifogydd a newid hinsawdd angen blaenoriaeth uwch. Arwahanrwydd ac unigrwydd heb eu nodi. Trafnidiaeth
- Meddygon wedi'u tawelu, ymgymwrwr angladdau o Loegr, Maloney dwi'n meddwl, heb weld unrhyw gynnydd mewn marwolaethau nes i'r brechlyn gael ei gyflwyno, sylw cyffredin o'i Faes
- Dim byd o gwbl ar sŵn, niwsans sŵn yn bryder arbennig ond nid yw sŵn o drafnidiaeth ac ati sy'n cael effaith uniongyrchol ar lesiant ac iechyd yn cael sylw.
- Dim digon ar swyddi. Ansawdd swyddi, nifer, bwlch cyflog ar sail rhywedd a chymysgedd ethnig y gweithwyr cyflogedig o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

A ydych chi'n meddwl ein bod wedi nodi'r materion cywir o ran yr adran 'pobl hŷn'?



Sylwadau a dderbyniwyd ar y cyd-destun 'pobl hŷn':

- Dim digon o gefnogaeth i gynnwys pobl hŷn yn ddigidol yn y ffordd sydd fwyaf addas iddyn nhw.
- dylai cartrefi gofod fod ar gael i bawb, am bris fforddiadwy.

Pa faterion ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'u methu mewn perthynas â'r adran 'pobl hŷn':

- materion sŵn heb eu cynnwys, roeddwn i'n meddwl bod cynnydd mawr wedi bod mewn cwynion sŵn, yn enwedig yn ystod covid, ble mae'r rhain

Themâu i Ganolbwyntio arnynt:

Thema 1:

- Cynnydd mewn swyddi sy'n talu'n dda
- Tlodi (plant ac oedolion) fel achos sylfaenol allgau, ffordd o fyw gwael, salwch meddwl a chyrhaeddiad isel
- ffyrdd iach ac egniol o fyw ar gyfer pob oedran
- Tlodi plant/llesiant economaidd
- Darparu dewisiadau hamdden yn lle alcohol
- SEIBRFLWIO/ CANLYNIAD COVID
- Tlodi / ardaloedd difreintiedig
- mynd i'r afael â gordewdra
- tlodi a thai fforddiadwy
- Apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda meddygon teulu
- iechyd meddwl oedolion
- Diddymu'r Senedd
- [sŵn a sain](#)
- Plentynod (yn enwedig blynyddoedd yr arddegau a phontio o wasanaethau pediatrig)
- Unigrwydd
- Tlodi a thlodi mewn gwaith
- Iechyd meddwl
- Newid hinsawdd
- mewn tlodi gwaith
- Enillion is na'r cyfartaledd
- Iechyd Meddwl
- Atal ac Ymyrraeth Gynnar i deuluoedd mewn angen
- NI FYDD EICH CYNLLUN 2023-28 YN MYND I'R AFAEL AG ANGHENION BRYS AR HYN O BRYD BETH YW'R CYNLLUN HWNNW ???DECHRAU YFORY

Thema 2:

- Mwy o Fannau Gwyrdd i bawb
- Iechyd meddwl (gan gynnwys dementia) yn deillio o unigrwydd, gorbryder (e.e. o fwlio, troseddau casineb, trais domestig, ac ati) ac yn arwain at lefelau uchel o hunanladdiad a salwch
- cyfle cyfartal yn dechrau'n gynnar
- Llesiant amgylcheddol
- Hen bobl
- Teuluoedd mewn tlodi
- PLANT MEWN ANGEN MWY O ARIAN I'R TRYDYDD SECTOR I DDILEU TLODI PLANT
- gordewdra
- mynd i'r afael ag agweddau at gyffuriau ac alcohol
- hinsawdd a llifogydd
- Mae mynediad at ddeintyddion y GIG, gofal deintyddol da yn allweddol i iechyd da
- iechyd meddwl plentynod a'r glasoed
- Dim cyfyngiadau symud
- Llonyddwch
- Iechyd Meddwl

- Trosedd
- Tai fforddiadwy
- Gordewdra
- Tlodi
- tlodi
- Colli bioamrywiaeth
- Tlodi
- Datblygiad cymunedol seiliedig ar le/cryfder
- GWAHARDD CONTRACT DIM ORIAU...CREU SWYDDI I BOB UN SY'N GADAEL YR YSGOL..GWEITHIO YW'R FEDDYGINIAETH ORAU AR GYFER LLESIANT (Y GAIR FFASIYNOL ERS COVID)

Thema 3:

- Tlodi Bwyd
- Llygredd ein hamgylchedd gyda phwyslais ar lygredd dŵr (yn enwedig gan gemegau, silwair, ac ati) a gwastraff (tipio anghyfreithlon, sbwriel, ac ati)
- adferiad a thwf economaidd
- Llesiant diwylliannol
- Plant mewn tlodi
- GOFAL PLANT FFORDDIADWY
- amgylchedd
- anabl a'r henoed
- trafndiaeth
- Caniatáu i fusnesau ddechrau gweithredu'n iawn i gynhyrchu mwy o incwm ac felly mwy o dreth yn cael ei thalu
- gweithgareddau awyr agored i'r glasoed i atal problem gordewdra
- Dim brechlynnau gwenwynig
- fforddiadwyedd
- Heneiddio
- Pandemig
- Iechyd Meddwl a Dementia
- Tlodi mewn gwaith
- Tai fforddiadwy
- plant mewn gofal
- gostyngiad mewn cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth
- Troseddau Casineb
- SORI, OND MAE CYNLLUNIAU ANFERTH RYDW I WEDI'U DARLLEN YN YMDDANGOS YN RHY YMESTYNNOL A CHOSTUS, LLE BYDDWN I'N GWARIO'R ARIAN HWN YN WAHANOL GYDA GWELL CANLYNIADAU FELLY OS GALLWCH LWYDDO GYDA'R CANLYNIAD CYWIR, GWYCH, FODD BYNNAG DAL I AROS AM YNNI O'R MÔR GAN BYDD Y LLANW YN DOD I MEWN A BYDD Y LLANW YN MYND ALLAN, NID YW'R GWYNT BOB AMSER YN CHWYTHU

Effeithiau'r Asesiad Llesiant drafft ar y Gymraeg

- Yn ddiddorol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng ac mae angen mynd i'r afael â hyn
- Credaf y dylai addysgu'r Gymraeg gael hyd yn oed mwy o bwyslais - yn arbennig ar gyfer y rhai dros 30 oed. Er gwaethaf y pandemig, mae angen iddo fod yn gymunedol a chynnwys rhywfaint o fewnbwn 'wyneb yn wyneb'
- yn gallu annog mwy o ddefnydd ohoni a'i dysgu wrth adrodd am gynnydd yn y Gymraeg a gwell llesiant gyda hi
- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan sylfaenol ac annatod o fywyd yn Sir Gaerfyrddin ac mae o bwysigrwydd mawr. Mae angen i'r asesiad sicrhau nad yw'n cael unrhyw effeithiau andwyol ar ddefnydd o'r Gymraeg a hygyrchedd iddi
- Ychydig
- O bosib byddai mwy o wersi Cymraeg yn helpu ymdeimlad o gydlyniant cymunedol
- Rhaid gwneud y Gymraeg yn ganolog i bob dim - plethu yn naturiol yn hytrach na gorfodi
- Dylid cymryd camau i wella lefelau siarad Cymraeg y sir ac nid yw monitro yn ddigon yn enwedig gyda'r mewnlifiad o bobl o Loegr yn prynu eiddo. Bydd siarad Cymraeg yn marw os ydych ond yn parhau i'w fonitro a pheidio â'i wthio fel blaenoriaeth
- dim
- Ddim yn berthnasol
- Byddwch chi i gyd yn marw os byddwch chi'n parhau i frechu
- Mae'r Gymraeg mewn dwylo da, mae Addysg Gymraeg wedi'i hymgorffori yn y gyfraith, amser i symud ymlaen i well ansawdd bywyd
- Da
- mae'n ymddangos bod bwch iaith, gyda'r boblogaeth hŷn sy'n siarad Cymraeg yn dirywio a'r iaith gyda nhw a'r tebygrwydd y bydd ieuenctid Cymraeg eu hiaith yn gadael y sir ac o bosibl ddim yn dychwelyd, pa gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â'u plant.
- Gobeithio gwella'r gefnogaeth i'r rhai sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plant ond sy'n siarad Saesneg
- Byddai galluogi pobl leol i aros yn yr ardal gyda swyddi addas, tai fforddiadwy ac ati yn cael effaith positif ar y Gymraeg.
- Ddim yn broblem i mi.
- Nid yw hyn wedi'i esbonio'n dda iawn --nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i ateb hwn. Dw i'n meddwl bod yna flaenoriaethau pwysicach na'r Gymraeg
- Dydw i ddim yn deall y cwestiwn hwn

Unrhyw sylwadau ar sut y gall yr asesiad llesiant drafft effeithio ar ddefnydd pobl o'r Gymraeg.

- Mae angen gwneud mwy i annog defnydd o'r iaith ym mhob agwedd o fywyd
- Gweler uchod (hefyd tlodi ac ystyried materion eraill - e.e. mae teimlo'n anniogel i fynychu dosbarthiadau nos yn fater arall)
- Gallai wella'r cyfle drwy wneud pobl yn ymwybodol o ddefnydd a chysylltiadau llesiant
- Gweler uchod
- Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw rwystrau i fod yn ddwyieithog.

- Dydw i ddim yn gwybod digon i wneud sylw
- Ffocws ar weithgarwch cymunedol - cynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg
- dim
- Ddim yn berthnasol
- Mae'n dywyll y naill ffordd neu'r llall oni bai bod y llywodraeth yn gadael
- Amser i ganolbwyntio ar wneud y Sir hon yn lle ble gall ein plant fyw gyda swyddi da ayb yn hytrach na gorfod mudo i wledydd eraill
- Dim
- Mae materion llawer pwysicach i fynd i'r afael â hwy, a gawn ni os gwelwch yn dda adael i'r iaith ofalu amdani'i hun, os yw pobl ei heisiau, byddant yn ei defnyddio; os na, ni fyddant!
- Fel uchod. Dw i'n meddwl bod yna flaenoriaethau mwy dybryd na phoeni am y Gymraeg. Gallai'r cyllid fynd at greu swyddi gwell i bawb.
- Byddai'n dda cael mwy o gymhelliant i ddysgu'r Gymraeg, yn enwedig o fewn y sector addysg lle mae angen mwy o amrywiaeth o athrawon.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar yr asesiad o lesiant lleol drafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin, sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Diolch am gael gweld Asesiad o Lesiant Lleol BGC Sir Gaerfyrddin.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod paratoi asesiad a'r dystiolaeth ategol yn dasg sylweddol ac yn cydnabod faint o waith sydd wedi'i gyflawni. Mae Covid-19 wedi dod â heriau enfawr i'r sector cyhoeddus ac mae partneriaid BGC wedi dangos ymroddiad a phenderfyniad gwirioneddol wrth oresgyn rhai sefyllfaoedd gwirioneddol anodd dros y cyfnod hwn. Mae BGCau yn dangos bod ganddyn nhw hefyd rôl hanfodol i'w chwarae yn yr adferiad o'r pandemig, wrth ystyried yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gymunedau a chydlynu'r ymateb tymor hwy. O ystyried hyn oll, rydym hefyd yn cydnabod bod yr asesiadau wedi'u paratoi o dan amgylchiadau eithriadol ac mae hyn wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth eu hadolygu.

Rydym wedi canolbwyntio ar y prif feysydd yr ydym yn ystyried y byddant yn mynd tuag at roi golwg gynhwysfawr i chi o gyflwr llesiant yn eich ardal, gan roi dealltwriaeth dda a chllir i chi yn y pen draw o'r math o flaenoriaethau y gallwch chi fel BGC dargedu eich ymdrechion ar y cyd i gael yr effaith orau yn eich cynllun llesiant. Dyma'r ail rownd o asesiadau a'r gobaith yw y bydd gwersi i'w dysgu o'r iteriad cyntaf, gan adeiladu ar yr hyn a ddigwyddodd yn flaenorol.

Rydym wedi strwythuro ein hymateb i'r ymgynghoriad ar eich asesiad yn yr un modd ag yn 2017 sydd fel a ganlyn:

- **Sylwadau cyffredinol** yn rhoi trosolwg o'r sylwadau ar yr asesiad;
- **Sylwadau mwy penodol** ar y modd y mae'r dadansoddiad wedi ei wneud a'i gyflwyno a'r modd y mae'r gofynion statudol wedi eu bodloni;
- **Tabl cryno terfynol** sy'n nodi'r meysydd y byddem yn awgrymu y gallent elwa o'u datblygu ymhellach. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gyson at y materion hyn sydd wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:
 - **Categori A** – mae'r rhain yn faterion arwyddocaol y byddem yn gobeithio y byddent yn cael sylw cyn cyhoeddi'r asesiad llesiant. Gallent ymwneud, er enghraifft, â chydymffurfiaeth â'r gofynion statudol neu fater sylfaenol gydag ansawdd y dadansoddiad.
 - **Categori B** – mae'r rhain yn faterion sy'n bwysig a byddent yn cefnogi cynllun llesiant mwy gwybodus a byddem yn gobeithio y gellid mynd i'r afael â nhw ochr yn ochr â datblygu'r cynllun.
 - **Categori C** – mae'r rhain yn faterion a fyddai'n cryfhau'r asesiad ond y gellid mynd i'r afael â hwy dros amser.

Byddwn yn defnyddio'r un dull wrth ymateb i bob un o'r asesiadau.

Sylwadau Cyffredinol

Mae'r asesiad hwn yn dangos yr ymrwymiad y mae BGC Sir Gaerfyrddin wedi'i wneud i groesawu'r her o asesu llesiant yn yr ardal. Mae'n ymgysylltu'n dda â'r rhan fwyaf o'r meysydd allweddol a nodir yn y canllawiau statudol ac anstatudol ac yn dangos defnydd da o ystod o dystiolaeth i gefnogi dadansoddi.

Mae ein gwerthusiad yn nodi rhai meysydd i'w datblygu ymhellach a allai gryfhau'r asesiad, o fynd i'r afael â hwy. Er enghraifft, byddem yn awgrymu cynnwys adran benodol yn amlinellu'r dulliau methodolegol a fabwysiadwyd, a darparu mwy o fanylion am y rhain, a fyddai'n ychwanegu lefel uwch o gadernid at y broses ymgysylltu. Yn ogystal, byddai hefyd yn ddefnyddiol cynnwys trafodaeth ar sut y penderfynwyd ar yr ardaloedd cymunedol a sut ystyriwyd yr ardaloedd cymunedol fel rhan o'r asesiad (gweler y paragraff perthnasol am fwy o fanylion). Teimlwn y byddai dealltwriaeth bellach ar lefel fwy lleol o fudd i'r asesiad cyfan.

Sylwadau ar agweddau penodol o Ofynion Statudol yr

Asesiad

Mae'r asesiad yn cyfeirio at y Dangosyddion Cenedlaethol perthnasol a'r dangosyddion lleol cysylltiedig ar gyfer cyfnod bywyd Dechrau Newydd, cyfnod bywyd Oedolion a chyfnod bywyd Heneiddio'n Dda.

Mae'r BGC wedi dewis chwe ardal gymunedol yn seiliedig ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch, gan ganiatáu i'r BGC adeiladu gwybodaeth ystadegol o amgylch yr ardaloedd hyn. Cyflwynir y data ar gyfer y chwe ardal drwy gydol yr asesiad ac, yn fuddiol, gwneir cymariaethau rhyngddynt.

Fodd bynnag, mae gennym un neu ddau o ymholiadau am y dull a ddewiswyd i nodi'r rhain. Yn gyntaf, rydym yn cwestiynu a yw hyn yn ddigon manwl o ystyried ei fod yn USOA. A ydynt yn cynrychioli cymunedau lleol yn Sir Gaerfyrddin neu a ydynt yn rhy fawr? A fyddai MSOA yn fwy priodol? Gallai dealltwriaeth bellach ar lefel fwy lleol amlygu amrywiaeth yr ardal a gwella'r gallu i asesu'n gadarn y gwahaniaethau neu'r tebygrwydd yn Sir Gaerfyrddin.

Y pwynt arall yw na roddir enwau i'r cymunedau, ac felly mae'n anoddach adnabod y rhain fel cymunedau real, cydlynol. Nid yw'r asesiad yn rhoi llawer o fanylion am nodweddion yr ardaloedd. Gallai ychwanegu enwau a disgrifiadau o'r ardaloedd ei gwneud yn haws i'r darlennydd ddeall nodweddion y cymunedau a statws llesiant yn yr ardaloedd hynny.

Nid yw'n ymddangos ar unwaith bod yr asesiadau a'r adolygiadau a ganlyn wedi'u defnyddio, y mae'r Ddeddf yn pennu bod yn rhaid i'r bwrdd eu hystyried wrth baratoi'r asesiad llesiant:

- Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU;
- Adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth addysg feithrin;
- Cynlluniau Lleihau Trosedd ac Anhrefn;
- Asesiad strategol Brwydro yn erbyn Camddefnyddio Sylweddau;
- Asesiad Strategol yn ymwneud â Lleihau Aildroseddu.

Strwythur a Fformat

Mae gan yr asesiad strwythur clir a rhesymegol. Mae adrannau agoriadol yn gosod y cefndir ar gyfer yr asesiad yn glir. Ceir crynodeb cychwynnol da sydd wedi'i strwythuro'n effeithiol yn bedwar cyfnod bywyd gwahanol, fel yr oedd yn yr asesiad cyntaf a daw'r dull hwn i'r amlwg fel un effeithiol.

Yn y crynodeb cychwynnol o themâu o dan y pedwar cyfnod bywyd, mae'n ddefnyddiol nodi ym mharagraff rhagarweiniol yr adran hon bod y themâu allweddol yn deillio o'r holl dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r asesiad.

Mae defnyddio Matrics Effaith/Sicrwydd Dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn effeithiol iawn ac mae'n nodi'n glir y materion i'w monitro, materion y mae angen rhagor o ymchwil arnynt, a materion sy'n hollbwysig ac y mae angen eu blaenoriaethu.

Byddem hefyd yn awgrymu y byddai'r asesiad yn elwa o ddull mwy cyson o gyflwyno data a fformat cyffredinol, er enghraifft:

- Wrth gyflwyno rhifau ar ffurf tabl, byddem yn argymhell defnyddio aliniad ar y dde yn hytrach nag aliniad canolog i'w gwneud yn haws darllen a chymharu rhifau;
- Dylid rhifo ffigurau / tablau a chynnwys teitlau, labeli a ffynonellau, a dylid eu hesbonio a'u croesgyfeirio yn y prif destun hefyd;
- Byddem yn awgrymu dewis un math o siart (h.y. siart llinell neu far) pan fo'r ddau faes yn ddata di-dor neu doredig (gweler Ffigurau 5 a 6, er enghraifft).

Ymgysylltiad

Mae'r asesiad yn dangos ymgysylltiad, cyfranogiad a chydweithio ystyrllon ac yn defnyddio'r dystiolaeth ohono yn effeithiol. Mae'n amlwg bod tystiolaeth wedi'i chasglu gan ddefnyddio amrywiol dulliau (arolygon, trafodaethau grŵp) ac yn cael ei chyflwyno a'i defnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan yr asesiad adran benodol sy'n amlinellu'r dulliau methodolegol a fabwysiadwyd ac sy'n rhoi mwy o fanylion am y rhain; byddai hynny'n fuddiol.

Cydbwysedd a Chynhwysedd

Mae'r model 'cwrs bywyd' yn ddefnyddiol o ran dadansoddi'r holl wybodaeth a sicrhau bod anghenion

pobl iau a hŷn yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, gellid rhoi mwy o ystyriaeth i sut y gellir ystyried a thrafod ffactorau cymdeithasol-economaidd yn fwy effeithiol drwy gydol yr asesiad. Er enghraifft, byddai'r asesiad yn cael ei gryfhau pe bai'n ystyried effaith ffactorau fel anfantais economaidd-gymdeithasol, amrywiaeth hiliol, anabledd ac yn y blaen o dan bob un o'r meysydd polisi sy'n cael sylw. Byddai cydnabod yr ystyriaethau hyn drwy'r asesiad yn sicrhau lefel fwy cyfoethog o ddealltwriaeth ac yn helpu i sicrhau bod ymdrechion i fynd i'r afael ag anfantais yn cael eu nodi i'r eithaf.

Byddai'n ddefnyddiol cynnwys crynodeb cloi sy'n dwyn ynghyd themâu / canfyddiadau / blaenoriaethau allweddol o bob un o'r penodau cyfnodau bywyd unigol.

Mae'n gryfder bod yr asesiad yn cydnabod ac yn rhoi trosolwg o'r ystod o faterion a heriau trawsffiniol a rhanbarthol sy'n effeithio ar y sir a rhanbarthau ehangach gorllewin Cymru a chanolbarth Cymru.

Ychydig iawn o gyfeiriadau sydd at Brexit a'r effaith a gaiff hyn ar yr ardal, yn awr ac yn y dyfodol. Gellid hefyd rhoi mwy o bwyslais ar ddiwylliant a'r celfyddydau.

Gallai'r adroddiadau WCPP a luniwyd [Briffiadau Llesiant i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | WCPP](#) fod yn ddefnyddiol ar gyfer agweddau diwylliannol a Brexit/covid. Gallai hyn helpu i ychwanegu gwerth lle mae bylchau hysbys.

Ymagwedd Myfyriol a Beirniadol

Mae'n ddefnyddiol cydnabod bylchau a chyfyngiadau yn y data a'r ymgysylltu yn y prif adroddiad, e.e. effaith Covid nid yn unig ar lesiant ond hefyd ar ansawdd y data (gan gydnabod lle nad yw o bosibl yn gywir).

Ansawdd y Dull Dadansoddol

Mae'r asesiad yn tynnu ar ystod eang o ddata a ffynonellau meintiol ac ansoddol i adeiladu darlun cyfoethog o lesiant ar draws y sir ac i ryw raddau o fewn ei chymunedau (er fel y soniwyd eisoes tybed a fyddai'r rhain yn elwa o fod yn fwy lleol).

Mae tystiolaeth wedi'i dangos i ba raddau y defnyddir ffynonellau data a mewnwleidiadau presennol i adeiladu'r asesiad. Mae ffynonellau cyffredinol wedi'u cyfeirio'n dda drwy'r adroddiad, ac eithrio rhai rhannau o'r dadansoddiad lle nad yw ffynhonnell y data wedi'i chynnwys (gweler yr adran leuenctid ar dudalen 43 ymlaen). Mae hefyd angen sicrhau bod y fersiwn terfynol yn cynnwys adran gyfeirio ar gyfer gwybodaeth bellach.

Crybwyllir methodoleg ymchwil yr asesiad yn fyr mewn penodau unigol o dan 'Ymatebion ymgysylltu', ond mae hyn yn ei gwneud yn anodd cael syniad o'r dull methodolegol cyffredinol a fabwysiadwyd. Byddem yn awgrymu cynnwys adran ar wahân (naill ai fel pennod unigol neu atodiad) i roi rhywfaint o

gefndir ac esboniad o'r prosesau ymgysylltu, ynghyd â chrynodeb o'r broses o gasglu, syntheseiddio a dadansoddi data ac unrhyw gyfyngiadau. Mae'r adran camau nesaf ar y diwedd yn cynnwys trosolwg defnyddiol o gyfyngiadau/bylchau data.

At ei gilydd, mae'r asesiad yn rhoi darlun clir o flaenoriaethau a all gysylltu â'r cynllun.

Tueddiadau'r Dyfodol

Mae'r asesiad wedi defnyddio tueddiadau a senarios y dyfodol ac wedi ystyried eu goblygiadau. Mae *Matrics Effaith/Sicrwydd Dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus* yn effeithiol ac mae'n nodi'n glir y materion i'w monitro, materion y mae angen rhagor o ymchwil arnynt, a materion sy'n hollbwysig ac y mae angen eu blaenoriaethu.

Mae'r ffordd y cyflwynir yr asesiad yn ei gwneud yn glir beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar draws y cyfnodau bywyd gwahanol.

Adborth o feysydd polisi eraill

Yn seiliedig ar yr adborth a gawsom gan arbenigwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru, mae rhai meysydd penodol iawn yr ydym yn eu hamlygu i chi eu hystyried. Er enghraifft:

- Nid yw'n ymddangos bod tystiolaeth o ymgysylltu â chynrychiolwyr darparwyr gofal plant trwy eu sefydliadau trydydd sector. Gallai hyn gefnogi dealltwriaeth o faterion mewn datblygiad cynnar, yn enwedig o ganlyniad i covid.
- Mae'n ymddangos bod ffocws yr ymgysylltu hyd yma o ran pobl ifanc wedi bod ar blant oedran ysgol. Disgwyliwn y bydd Sir Gaerfyrddin yn rhoi sylw i bwysigrwydd tynnu ar lais y plant hynny sydd rhwng 0 a 4 oed. Un ffordd o wneud hyn fyddai cysylltu â'u Cydlynwyr Braenaru BGC – a fydd wedi bod yn gweithio ar fapio a chwmpasu eu Systemau Blynyddoedd Cynnar a bydd ganddynt gyfoeth o wybodaeth i'w defnyddio a allai helpu'r broses hon.
- Mae'r ffocws ar drais domestig i'w groesawu, ond byddem yn annog y BGC i ganolbwyntio ar y diffiniad ehangach o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel y'i diffinnir yng nghyfraith Cymru - mae hyn yn cynnwys ffactorau ehangach fel rheolaeth orfodol.

Meysydd i'w datblygu

Categori A

Categori B

Ardaloedd Cymunedol (gweler 'Gofynion Statudol')

Dull Methodolegol (gweler 'Ymgysylltu')

Ystyried adolygiadau ac asesiadau statudol (gweler 'Gofynion Statudol')

Fformatio Tablau (gweler 'Strwythur a Fformat') yr

adran gyfeirio.

Pennod olaf i ddwyn ynghyd themâu / canfyddiadau / blaenoriaethau allweddol o bob un o'r penodau cyfnod bywyd unigol (gweler 'Cydbwysedd a Chynhwysedd')

Brexit

Mwy o waith ar agweddau diwylliannol (gweler o dan 'Cydbwysedd a

Chynhwysedd') Gellid cryfhau Tueddiadau'r Dyfodol (gweler y paragraff).

Categori C

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin: Asesiad Llesiant

Adborth a chyngor gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

1: Crynodeb

- Asesiad llesiant clir, wedi'i gyflwyno'n dda yn dangos yr ymrwymiad y mae BGC Sir Gaerfyrddin wedi'i wneud i asesu llesiant yn ei ardal.
- Wedi'i strwythuro mewn perthynas â chyfnodau bywyd, o 'ddechrau newydd' i 'heneiddio'n dda', sy'n gweithio'n dda, sy'n hawdd ei ddefnyddio ac yn strwythur defnyddiol ar gyfer annog meddwl rhwng cenedlaethau.
- Cydweithio rhanbarthol yn nodwedd gref, gadarnhaol o'r gwaith a wneir.
- Arfarniad gonest o ddata a gwybodaeth, eglurder ynghylch y wybodaeth sydd gennych a'r wybodaeth nad oes gennych, a myfyrdod rheolaidd.
- Defnydd da a chymysgedd o fathau o ddata a gwybodaeth (meintiol ac ansoddol), gyda gwybodaeth ac adborth o'ch gwaith ymgysylltu wedi'u hymgorffori drwyddo draw.
- Rhai enghreifftiau da o arfer gorau, gan gynnwys y tabl sy'n amlinellu sut mae'r BGC wedi cymhwyso'r 5 ffordd o weithio a'r defnydd o'r matrices effaith / sicrwydd.
- Mae Adran 3 yn amlygu rhai meysydd a fyddai, o'u datblygu ymhellach, yn helpu i gryfhau'r asesiad. Mae'r rhain yn ymwneud â thueddiadau'r dyfodol, cyfranogiad, gwneud cysylltiadau rhwng materion, yr Iaith Gymraeg a sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at nodau llesiant Cymru.
- Mae Adran 3 hefyd yn amlinellu meysydd eraill (dymunol) i'w hystyried yn yr asesiad.

2: Tystiolaeth o arfer da yn yr asesiad llesiant

Proses a methodoleg

Mae'n gadarnhaol gweld gwaith cydweithredol y BGC, yn lleol ac yn rhanbarthol i gynhyrchu'r asesiad, gan rannu adnoddau, arbenigedd, casglu data a chapasiti. O hyn, rydych wedi nodi 13 o themâu llesiant rhanbarthol allweddol ac wedi nodi materion llesiant trawsffiniol fel newid yn yr hinsawdd, tloedi plant a fforddiadwyedd tai.

Ceir gwerthusiad gonest o'r data a rennir trwy gydol yr asesiad. Er enghraifft, rydych yn nodi bod nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith wedi gweld gostyngiadau blynyddol sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a bod y sir yn is na chyfartaledd Cymru o 13.5% (8.8%). Ac eto rydych chi (yn gywir) yn nodi, er bod hon yn duedd gadarnhaol, na ddylid ei thrin ar wahân i'r ffaith bod mwy o blant yn byw mewn tloedi yn eich sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru.

Rydych wedi ag ystod eang o bobl ac wedi tynnu gwybodaeth yn glir o ffynonellau meintiol ac ansoddol drwy'r adroddiad. Er enghraifft, ar ordewdra ymhlith plant, ategir y gymhariaeth o ddata rhanbarthol ar ymgysylltiad plant â chwaraeon â safbwyntiau ansoddol gan blant.

Mae'r tabl sy'n amlinellu sut mae'r BGC wedi cymhwyso'r 5 ffordd o weithio yn ddefnyddiol iawn. Er enghraifft, o dan 'Tymor hir' mae eich enghreifftiau yn cynnwys 'Cwestiynau meddwl am y dyfodol wedi'u cynnwys yn yr arolwg' ac 'Ystyried a dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau'r dyfodol pan fydd ar gael'.

Mae'r defnydd o'r matrices effaith / sicrwydd yn gryfder, sy'n eich galluogi i ddarparu asesiad dangosol o'r prif themâu a nodwyd gennych. Mae hefyd yn ddefnyddiol gweld eich perfformiad presennol yn cael ei asesu yn erbyn dangosyddion llesiant cenedlaethol Cymru i helpu i roi mewnwelediad pellach i lefelau llesiant yn eich sir. Mae hefyd yn ddefnyddiol gweld y rhain wedi'u cynnwys ym mhob un o'r penodau.

Mae yna fyfyrdd gonest am effaith Covid ar yr asesiad, a sut mae'r BGC wedi ceisio cyfeirio at effeithiau penodol y pandemig ar wahân (lle bo'n bosibl), a chydabod effeithiau Covid fel bwlch data. Rydych hefyd yn nodi bod angen bod yn ofalus os nad yw'r wybodaeth yn gyfredol neu'n rhagddyddio COVID-19, fel gyda rhai o'ch ffigurau ar ddemograffeg.

Mae'r asesiad yn archwilio rhai rhyng-gysylltiadau rhwng materion. Er enghraifft, mae'r bennod 'Dechrau Newydd' yn nodi pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd ond hefyd anghydraddoldeb amgylcheddol. Ceir croesgyfeirio hefyd â rhai o'r materion a gyflwynir rhwng penodau, e.e. gan nodi tanau gwyllt fel problem yn eich penodau ar ddiogelwch cymunedol a'r amgylchedd, a chroesgyfeirio rhwng y ddau.

Mae strwythur y bennod 'Heneiddio'n dda' yn gweithio'n dda, wedi'i osod yn erbyn fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd o 8 parth i helpu i greu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed. Mae hyn yn dangos dull gweithredu sy'n cyd-fynd â'r gofynion statudol ac sy'n ymgorffori fframweithiau ymchwil o astudiaethau ehangach ar lesiant.

Cynnwys

Mae tynnu sylw at y materion allweddol ar ddechrau'r adroddiad yn ddefnyddiol i ddarllenwyr a rhanddeiliaid ehangach a fyddai am deall y penawdau. Mae'r pynciau a'r materion yn cael eu hesbonio'n glir drwyddi draw, sy'n golygu bod y wybodaeth a'r naratif yn glir, yn hygyrch ac yn hawdd i'w deall.

Mae'r adrannau 'Ymateb Ymgysylltu' ar ddiwedd pob is-bennod yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod lleisiau preswylwyr yn cael eu hyrwyddo drwy gydol yr adroddiad – mae'r rhain yn cryfhau'r naratif cyffredinol.

Rydych chi'n dangos dealltwriaeth dda o ba ddata sydd gennych chi, a pha ddata nad oes gennych chi. Mae nifer o achlysuron yn yr asesiad lle mae'n nodi bod pwnc yn 'faes yr hoffem ymchwilio iddo ymhellach.' Mae'n ddefnyddiol gweld y rhain yn cael eu hamlygu o dan eich adran 'camau nesaf' fel tlodi tanwydd, gordewdra oedolion, cam-drin domestig, a tai / digartrefedd.

Mae'n gadarnhaol gweld 6,436 o fyfyrwyr (67%) ar draws 12 ysgol yn eich sir yn cymryd rhan yn arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) yn 2017-18. Bydd dadansoddi a chymharu â chanlyniadau arolwg mwy diweddar Medi 2021 yn bwysig, pan fyddant ar gael.

Rydym yn croesawu'r adfyfrio ar rai o'ch data ac ystadegau mewn perthynas â'r asesiad llesiant cyntaf. Er enghraifft, er gwaethaf y nifer uchel o aelwydydd sy'n parhau i fyw mewn tlodi, fe wnaethoch nodi bod hyn wedi gostwng 2% ers yr Asesiad Llesiant diwethaf.

Mae nifer yr ymadawyr ysgol (1.8%) a gofnodwyd fel NEET bellach yn hanner ers yr asesiad diwethaf (3.4%).

Er ei fod ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, rydych yn nodi y gellid priodoli'r gostyngiad sylweddol hwn i'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar nodi'n gynnar a chynnig cymorth wedi'i dargedu. Rydych hefyd yn nodi bod nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn Sir Gaerfyrddin yr isaf yng Nghymru, o ganlyniad i'ch ffocws parhaus ar waith ataliol, gyda systemau cadarn ar waith i gadw plant yn ddiogel yn y cartref. Mae'r rhain yn [enghreifftiau da o waith ataliol yn yr ardal](#).

Mae'r prosiect ReConnecting, drwy'r Grŵp Arwain 50+, yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan aelodau Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin, a dynnodd sylw at bwysigrwydd y celfyddydau a diwylliant yn ystod y pandemig, a sut roedd mynediad at gyfleoedd digidol yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant.

[3: Meysydd y gellid eu datblygu ymhellach](#)

Meysydd pwysig i'w hystyried

Gan adeiladu ar y gwaith helaeth a wnaed eisoes ar gyfer eich asesiad llesiant, isod mae meysydd yr ydym yn eu hystyried yn bwysig i chi eu hystyried. O'u datblygu ymhellach, byddent yn helpu i gryfhau'r asesiad yn gyffredinol.

Adeiladu ar eich defnydd o wybodaeth am dueddiadau'r dyfodol

Mae'n dda gweld sawl cyfeiriad at Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gyhoeddwyd yn ddiweddar drwy gydol y ddogfen. Rydych wedi defnyddio'r wybodaeth i ategu data lleol a/neu ychwanegu rhywfaint o ddadansoddiad ehangach, e.e.: *'Mae'r data a gyflwynwyd yn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn nodi y rhagwelir y bydd tymheredd haf cyfartalog yn codi 1.34°C erbyn 2050. Gallai hyn achosi cynnydd o 5% mewn glaw drwy gydol y flwyddyn, wedi'i grynhoi'n fwy yn y gaeaf wrth i'r hafau brofi cyfnodau hirach o sychder.'*

I adeiladu ar hyn, dylai'r asesiad hefyd ystyried beth allai goblygiadau'r tueddiadau a amlygwch fod i'ch ardal. Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, pa ardaloedd a phoblogaethau yn Sir Gaerfyrddin fyddai fwyaf agored i fwy o law a/neu sychder? Beth allai'r effaith bosibl fod ar gartrefi, bywoliaeth neu iechyd a llesiant? A oes goblygiadau i grwpiau a chymunedau penodol?

Mae ein hadroddiad diweddar gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru ['Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol'](#) yn amlygu y gallai newid yn yr hinsawdd gynyddu anghydraddoldebau os nad yw'r effeithiau ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas yn cael eu hystyried. I archwilio enghreifftiau fel hyn yn llawnach, byddem yn eich annog felly i gynnwys y pobl a chymunedau a allai gael eu heffeithio fwyaf, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bydd dealltwriaeth well o'u pryderon a'u blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn eich helpu i gynllunio'ch camau nesaf.

Mae eich asesiad hefyd yn cyfeirio at y cysylltiadau rhwng tueddiadau'r dyfodol ac anghydraddoldebau mewn perthynas â gwaith, gan nodi: *'Mae hyn yn dangos tuedd sy'n peri pryder nad yw bod mewn gwaith o reidrwydd yn tynnu aelwydydd allan o dlodi.'* Ynghyd â newid yn yr hinsawdd, mae adroddiad ['Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol'](#) hefyd yn edrych ar anghydraddoldeb mewn perthynas â thueddiadau ar ddyfodol gwaith a newid demograffig, sy'n berthnasol i feysydd eraill o'ch asesiad. Mae angen rhoi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau posibl ar gyfer anghydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau i fynd i'r afael â thueddiadau'r dyfodol.

Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod diweddar, gall fod yn ddefnyddiol hefyd ystyried effaith tueddiadau'r dyfodol yn y tymor byr (3-5 mlynedd), y tymor canolig (tua 10 mlynedd), a'r tymor hwy (hyd at y 25 mlynedd, sef 'cenhedlaeth', fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf). Gall hyn eich helpu i nodi risgiau neu gyfleoedd uniongyrchol, ac amlygu'r effeithiau tymor hwy a ddylai lywio'r penderfyniadau hynny. Wrth feddwl a gweithredu ar gyfer y tymor hir, mae sut rydych chi'n gwneud rhywbeth yr un mor bwysig â'r hyn rydych chi'n ei wneud.

Byddem yn croesawu tystiolaeth eich bod wedi ystyried a blaenoriaethu tueddiadau'r dyfodol sydd fwyaf perthnasol i'ch ardal. Efallai y bydd y matrices effaith / sicrwydd yn arf defnyddiol yma - nodwn eich bod eisoes wedi ei ddefnyddio i asesu'r prif themâu yn eich asesiad. Byddai archwilio dau neu dri o dueddiadau'r dyfodol yr ydych yn eu nodi fel rhai arwyddocaol ar gyfer eich ardal yn fwy manwl yn cryfhau'r asesiad yn gyffredinol. Gallai'r BGC hefyd wneud y gwaith hwn fel rhan o'i baratoadau ar gyfer y cynllun llesiant a gosod amcanion/campau.

Eich gwaith ar gynnwys

Mae'r dull rhanbarthol a fabwysiadwyd gennych yn cynnwys eich gwaith ar ymgysylltu, lle sefydloch grŵp ymgysylltu ac is-grŵp arolwg. Mae'r asesiad yn nodi bod 'Fframwaith Ymgysylltu ac Ymgynghori Rhanbarthol' wedi'i gynhyrchu, ac mae ar gael ar wefan y BGCau.

Yn ein cyfarfod ar 17 Ionawr 2022, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith nad oeddem yn gallu lleoli'r fframwaith ar eich tudalen we a nodwyd gennych fod 'dogfen gefndir dechnegol' yn cael ei chynhyrchu, yn manylu ar eich gwaith ymgynghori a chynnwys. Edrychwn ymlaen at weld y ddwy ddogfen.

O'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych, mae'n amlwg eich bod wedi ymgysylltu ag ystod eang o bobl. Er enghraifft, eich gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr o gymuned y Lluoedd Arfog a rannodd eu pryderon am iechyd meddwl a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar eu cyfleoedd addysgol a hyfforddiant. A'ch grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; Dinasyddion yr UE (nad ydynt yn Gymru), cymunedau gwledig ac ynysig, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, Cymunedau Sipsiwn / Teithwyr, Ffoaduriaid Syria, pobl LGBTQ+, pobl anabl a/neu bobl â chyflyrau iechyd a phobl ifanc.

Mae'n dda gweld ystod eang o ddulliau, offer a dulliau gweithredu yn cael eu defnyddio yn y gwaith ar gynnwys pobl. Er enghraifft, wnaethoch chi gyfarfod yn rhithiol â saith ysgol leol, gyda sgysiau wedi'u strwythuro o amgylch hapusrwydd, pethau a oedd yn bwysig iddynt a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Roedd y rhain yn amlwg yn drafodaethau pwysig a chafwyd adborth arwyddocaol. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r safbwyntiau a'r wybodaeth a gasglwyd gyda 'Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin' yn hydref 2020, lle'r oedd pryderon yn cynnwys diffyg cyfleoedd gwaith addas, diffyg tai fforddiadwy, hyfforddiant/sgiliau, yr amgylchedd ac iechyd meddwl.

Mae'n galonogol gweld eich myfyrdod gonest ar y '*lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed ar hyn o bryd fel rhan o'r asesiad*' fel maes i'w wella, a'ch bwriad i gynyddu ymdrechion i ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Gan adeiladu ar hyn, gallech ystyried ymgorffori rhywfaint o brofiad bywyd wrth ddylunio eich cynllun llesiant, gan alluogi trigolion Sir Gaerfyrddin i adrodd eu stori yn llawnach.

Yn olaf, rydych yn nodi *'Mae hyn yn cynrychioli dechrau sgwrs barhaus am lesiant yn Sir Gaerfyrddin'* sy'n wych i'w glywed wrth i'r BGC symud ei ffocws o asesu i gynllun/amcanion. Bydd defnyddio a mabwysiadu technegau cynnwys cryf, arloesol sy'n mynd y tu hwnt i ymgysylltu ac sy'n symud mwy tuag at gydgyhyrchu yn bwysig i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

Gwneud y cysylltiadau rhwng y materion, data a gwybodaeth

Mae'r asesiad yn nodi rhai cysylltiadau rhwng materion, mantais o strwythuro'r asesiad yn erbyn oedran. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn cysylltu llesiant meddwl a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod â'r gallu i ddatblygu perthnasoedd, cysylltiadau diwylliannol a chyfranogiad mewn chwaraeon. Ac mae'r bennod *'Dechrau Newydd'* yn nodi pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.'

I amlygu un enghraifft o'r wybodaeth feintiol ac ansoddol a gyflwynwyd, mae cysylltiadau clir rhwng seilwaith trafndiaeth, chwarae plant, mynediad i fannau gwyrdd, gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl, a lleihau allyriadau.

Fel y nodwch: *'Un o'r ffyrdd allweddol o fynd i'r afael â lefelau gordewdra ymhlith plant yw eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol'*, ac eto mae rhieni disgyblion blwyddyn 5 a blwyddyn 8 yn tynnu sylw at draffig ffyrdd fel y prif rwystr sy'n atal plant rhag chwarae a chymdeithasu. Mae hyn hefyd yn ymwneud â'ch pwyntiau ar ordewdra ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Ac, mae eich sylw bod annog y defnydd o'r dulliau trafndiaeth glanaf, teithio llesol a chreu manau gwyrdd trefol yn *'debygol o fod yn allweddol i leihau allyriadau yn y dyfodol.'*

Wrth symud o asesiad llesiant i gynllun, un o'r ystyriaethau allweddol a fydd yn helpu'r BGC i flaenoriaethu ei amcanion a'i gamau fydd nodi cysylltiadau fel y rhain, sy'n torri ar draws pedwar dimensiwn llesiant.

Y Gymraeg

Eich sir sydd â'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg o gymharu â gweddill Cymru, ac rydych yn nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn gysylltiedig â llesiant goddrychol uwch. Er hyn, rydych yn tynnu sylw at ostyngiad mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Er enghraifft, o 50.3% yn 2001 i 43.9% yn 2011. Mae'r asesiad hefyd yn amlygu'r heriau o amgylch lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg, lle mae niferoedd/lleoedd wedi gostwng.

Gan adeiladu ar y wybodaeth a nodir, byddai'n ddefnyddiol cynnwys dadansoddiad pellach o'r hyn y mae'r data hwn yn ei olygu i'ch ardal (yn awr ac yn y tymor hwy), ac ar y cyd â gweledigaeth genedlaethol 'Cymraeg 2050' i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddai cyfeirio at unrhyw waith sydd wedi'i wneud i deall yn well y rhesymau dros y dirywiad yn eich ardal yn ddefnyddiol hefyd.

Wrth symud at osod amcanion a chamau yn eich cynllun llesiant, dylid gwneud cysylltiadau clir â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a strategaeth hybu'r awdurdod lleol. Amlygodd aelodau eich Fforwm Strategol y Gymraeg bwysigrwydd y berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg, a gellid gwneud cysylltiadau yma hefyd gyda'ch darparwyr sgiliau lleol.

Gwneud y mwyaf o gyfraniad y BGC at nodau llesiant Cymru

Gall deall diffiniad llawn nodau llesiant Cymru helpu i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried yr ystod eang o bynciau a themâu llesiant yn eich ardal.

Mae'r tabl isod yn nodi meysydd y gellid eu harchwilio ymhellach yn yr asesiad, a/neu eu hystyried ar gyfer y cynllun llesiant. Sylweddolir efallai na fydd yn bosibl i'r holl wybodaeth isod gael ei hystyried / ymgorffori'n llawn yn eich asesiad. Yn lle hynny, efallai y byddwch am ddewis rhai meysydd i gyd-fynd â'r gwaith helaeth yr ydych eisoed wedi'i wneud:

<p>Cydraddoldeb a chroestoriadedd</p>	<p>Mae cydraddoldeb wedi'i ystyried drwy'r asesiad. Gan adeiladu ar eich gwaith ymgysylltu cadarnhaol, gallai'r asesiad gydnabod sut mae croestoriadedd yn effeithio ar bobl yn Sir Gaerfyrddin, e.e. sut brofiad yw bod yn ifanc a LGBTQ+ yn Sir Gaerfyrddin? Gall ethnigrwydd a gormes ar sail rhywedd hefyd arwain at anghydraddoldebau iechyd sylweddol. Rydym hefyd yn argymhell sicrhau bod yr holl 'nodweddion gwarchodedig' a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu hystyried yn yr asesiad.</p> <p>Bydd gan boblogaeth sy'n heneiddio oblygiadau ar gydraddoldeb yn eich ardal, ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac addysg, a phensiynau'n gweithredu. Bydd angen i'r systemau hyn addasu os ydynt am weithredu yn y tymor hir. Mae ein hadroddiad 'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol' yn archwilio tueddiadau'r dyfodol mewn perthynas â newid demograffig, dyfodol gwaith a newid yn yr hinsawdd, ac mae'n adnodd defnyddiol ar gyfer ystyried goblygiadau posibl anghydraddoldeb yn y meysydd hyn.</p>
<p>Sgiliau ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Mae'n dda gweld adborth trwy eich gwaith ymgysylltu ar bwysigrwydd sgiliau digidol, ac rydych wedi rhannu pryderon am y duedd barhaus o bobl ifanc yn symud allan.</p> <p>Rydym yn eich annog i ystyried y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol, eu perthynas â'ch ardal, a'u harwyddocâd o ran meysydd llesiant eraill. Er enghraifft, y sgiliau sydd eu hangen i drosglwyddo i economi carbon isel. Mae dadansoddiad cryno o'n hadroddiad diweddar yma. Mae'n canfod bod bylchau sgiliau sylweddol ledled Cymru mewn diwydiannau gwyrdd y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw.</p>
<p>Brexit ac amaethyddiaeth</p>	<p>Gellid ei ystyried ymhellach gan mai amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir yn Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â goblygiadau posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Mae papur briffio WCPP: Effeithiau Covid-19 a Brexit ar lesiant' yn adnodd defnyddiol. Mae materion yn ymwneud â sgiliau rheoli tir cynaliadwy (gweler ein hadroddiad cysylltiedig uchod) hefyd yn berthnasol yma.</p>
<p>Sero Net Cymru a'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd (CCRA)</p>	<p>Croesawu'r wybodaeth a gyflwynir am yr amgylchedd. Dylid ystyried yr hyn y mae llwybr datgarboneiddio Cymru yn ei olygu i'ch ardal chi, ac mae crynodeb yr Asesiad o'r Risg o Newid yn yr Hinsawdd (CCRA3) ar gyfer Cymru hefyd yn ddogfen allweddol</p>

	sy'n amlinellu'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol i Gymru, nad oes cyfeiriad iddi ar hyn o bryd.
Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru	Ystyried y tair prif flaenoriaeth a'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy yn Llwybr Newydd (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021), a chynnydd/heriau yn eich ardal.
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol	Ddim yn glir a yw'r cysylltiadau wedi'u gwneud gyda'ch Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol lleol. Bydd eich asesiad yn adnodd arwyddocaol iddynt. Yn yr un modd, bydd eu strategaethau a'u blaenoriaethau yn allweddol i'ch BGC. Gweler hefyd y pwyntiau uchod ar sgiliau.
Fframwaith Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru	Fe'i cyhoeddwyd yn ddiweddar yn Rhagfyr 2021, adnodd pwysig i'ch BGC.
Yr economi sylfaenol	A chysylltiadau â Chronfa Her yr Economi Sylfaenol .
Economi gylchol a defnydd	Cyfeirir ato'n gryno yn eich is-bennod gwastraff, ond gellid archwilio ymhellach yr hyn y mae strategaeth Cymru ar gyfer economi gylchol yn ei olygu i'ch ardal, e.e. helpu cymunedau i rannu eitemau, gwastraff bwyd, fflyd drydan ac ati. Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn chwilio am ffyrdd o ddeall sut y gall dull economi gylchol eu helpu i fodloni nifer o flaenoriaethau llesiant.
Caffael teg a lleol	Heb ei archwilio yn yr asesiad, ond yn ysgogiad allweddol ar gyfer newid. Byddai peth dadansoddiad o'ch economi leol/cadwyni cyflenwi yn cryfhau'r asesiad.
Twristiaeth	Maes pwysig y gellid ei archwilio ymhellach, sy'n cysylltu â'ch gwaith gyda busnes, yr amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol/naturiol.

Meysydd eraill i'w hystyried (dymunol)

Dyma'r meysydd y gallech fod am eu diwygio / diweddarau i gryfhau'r asesiad yn gyffredinol:

Adlewyrchu llesiant amgylcheddol a diwylliannol ar draws grwpiau oedran

Weithiau ceir gwahaniaeth rhwng y graddau yr archwilir pedwar dimensiwn llesiant. Er enghraifft, ymdrinnir â llesiant cymdeithasol ac economaidd yn gynhwysfawr ar draws pob un o'r pedair pennod, tra bod llesiant amgylcheddol yn cael ei gynnwys yn bennaf yn 'Heneiddio'n Dda' ac 'Oedolion', a llesiant diwylliannol yn Oedolion.

Gan adeiladu ar y wybodaeth a nodwyd eisoes, fel eich adran ar 'chwarae', a oes unrhyw gyfleoedd i chi ystyried ymhellach lesiant amgylcheddol a diwylliannol ymhlith pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin? Mae'r ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifanc yn awgrymu bod y rhain yn feysydd pwysig iawn iddyn nhw, a byddai mewnwelediad ychwanegol yn helpu i gryfhau'r asesiad.

Cydweithio

Gan adeiladu ar y dull cydweithredol a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r asesiad yn y rhanbarth, byddai'n fuddiol pe bai'r asesiad yn nodi pwy oedd yr holl bartneriaid a sut y rheolwyd y cydweithio. Byddai'r wybodaeth hon yn helpu ar gyfer dysgu yn y dyfodol, gan fod cydweithredu traws-sector yn ddull heriol ond effeithiol yn aml o gyflawni newid cymdeithasol.

Rhestr rhanddeiliaid

Byddai'n ddefnyddiol ar gyfer dysgu yn y dyfodol (mewnol ac allanol i'r BGC) pe bai rhestr o randdeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw wedi'i chynnwys yn eich dogfen gefndir dechnegol.

Myfyrio ar gynnydd

Mae'n gadarnhaol gweld rhai enghreifftiau lle rydych chi wedi cymharu cynnydd â'ch asesiad llesiant cyntaf. Byddai cynnwys enghreifftiau pellach yn fuddiol, os yn bosibl.

Dadansoddiad o ardal y BGC a 6 chymuned leol

Er bod tueddiadau'n cael eu hystyried yn gyffredinol ar lefel awdurdod lleol, mae rhai canfyddiadau wedyn yn cael eu dadansoddi fesul tref, ardal gymunedol a ward. Wrth fynd ymhellach, byddai'n ddefnyddiol gweld rhywfaint o ddadansoddiad dyfnach o'r ardaloedd cymunedol o gymharu â'i gilydd. Er enghraifft, gallai'r adran ar brisiau tai archwilio pam mae cynnydd mewn prisiau tai wedi digwydd, a pham eu bod yn wahanol mewn rhai ardaloedd nag eraill (e.e. agosrwydd at yr arfordir, ail gartrefi / twristiaeth, neu gysylltiadau trafniadaeth ac ati). Byddai'n ddefnyddiol hefyd, er enghraifft, gweld sut y gallai rhai elfennau o lesiant fod yn wahanol i'r rhai sy'n agosach at yr arfordir a'r rheini sy'n fwy mewndirol; neu drefi o gymharu ag ardaloedd mwy gwledig.

Gwirfoddoli, gweithgareddau rhwng cenedlaethau a rhannu gwybodaeth

Ar hyn o bryd, mae 33.7% o oedolion Sir Gaerfyrddin yn gwirfoddoli ac mae'r cysylltiadau â llesiant yn glir. Mae negeseuon clir o'ch arolwg gyda phobl hŷn fod yna awydd i rannu gwybodaeth a phrofiad, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng cenedlaethau, adeiladu cydlyniant cymunedol a gwella llesiant. Mae hwn yn ymddangos yn faes pwysig i'ch sir a gallai'r BGC ystyried ei rôl yn llawnach yn y maes hwn os nad yw eisoes.

Tipio Anghyfreithlon

Pryder sylweddol i'r ardal, gyda chyfanswm yr achosion a gofnodwyd yr ail uchaf yng Nghymru. Mae hefyd yn groes i'r tueddiadau a welir yn eich siroedd cyfagos, Ceredigion a Sir Benfro, lle maent wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn achosion o dipio anghyfreithlon. Byddai'n ddefnyddiol gwybod a oes unrhyw waith, astudiaethau neu gamau penodol yn cael eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn?

Astudiaethau achos

Croesawu eich awgrym y bydd astudiaethau achos yn cael eu hychwanegu at yr Asesiad.

Terminoleg

Rydym yn eich annog i ddefnyddio'r term 'lleisiau nas clywir yn aml' neu 'angen eu cyrraedd' yn hytrach na grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Ac, mae'r defnydd o'r term 'dirywio' mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol yn awgrymu bod y ganran wedi mynd yn llai, tra mae'n tueddu i ddangos bod y sefyllfa wedi gwaethygu mewn gwirionedd, e.e. yn achos unigrwydd (t87). Awgrymwn ystyried diwygio'r derminoleg hon.

Symudedd

Ar dudalen 85, nid oes unrhyw wybodaeth o dan y pennawd 'symudedd'.

4: Adnoddau i helpu i lywio eich camau nesaf

Isod mae adnoddau a all helpu i lywio eich camau nesaf, wrth i chi symud o asesiad llesiant i gynllun llesiant:

- Pennod 4 o Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: '[Gosod Amcanion Llesiant Da](#)'
- '[Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau](#)'
- [Astudiaethau achos](#) o sut mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu ar lawr gwlad yng Nghymru
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: [Adnoddau](#)